

# *Sut gallwn ni gadw pobl hŷn yng Nghymru yn ddiogel?*

Adroddiad a Gomisiynwyd gan  
Electrical Safety First





## Ynglŷn ag Electrical Safety First

Electrical Safety First yw'r elusen yn y DU sy'n ymroi i leihau'r marwolaethau a'r anafiadau a achosir gan ddamweiniau trydanol. Ein nod yw sicrhau y gall pawb yn y DU ddefnyddio trydan yn ddiogel.

Rydym yn ymgyrchu ar ran defnyddwyr a chrefftwyr trydan proffesiynol i wella rheoleiddio diogelwch ac i sicrhau bod negeseuon diogelwch yn briodol, i'r funud ac yn cael eu cyfleu'n dda.

Rydym yn darparu gwybodaeth a chynghor arbenigol i helpu pobl i'w diogelu eu hunain rhag gosodiadau trydanol ac offer trydan diffygiol, difrodedig, is-safonol, ac sydd heb eu cynnal yn dda.

Cawn ein cydnabod gan y llywodraeth a byd diwydiant fel yr elusen ymgyrchu a'r awdurdod technegol blaenllaw ar ddiogelwch trydanol.



Arbenigwyr diogelwch trydanol y DU

# Sut gallwn ni gadw pobl hŷn yng Nghymru yn ddiogel?

---

**Adroddiad a Gomisynwyd gan Electrical Safety First ar y cyd â Phrifysgol Abertawe.** Paratowyd gan yr Athro Cyswllt Sarah Hillcoat-Nallétamby a'r Dr Alexandra Sardani. Canolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia/Canolfan Heneiddio Arloesol. Prifysgol Abertawe.

## Cynnwys

---

1. Cyflwyniad gan Electrical Safety First ac Argymhellion Allweddol .....	5
2. Crynodeb Gweithredol .....	6
3. Y Gymdeithas Sy'n Heneiddio Yng Nghymru – Pobl A Lleoedd .....	11
4. Diogelwch Trydanol yn Stoc Dai Cymru .....	27
5. Diogelwch yn y Cartref yng Nghymru .....	37
6. Atodiadau .....	52
7. Cyfeiriadau .....	65

## Rhestr Talfyriadau

---

<b>AT</b>	Technoleg gynorthwyol
<b>CSSIW</b>	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
<b>DIY</b>	Eich gwaith eich hun
<b>F &amp; R</b>	Tân ac Achub
<b>FRA</b>	Awdurdodau Tân ac Achub
<b>HHSRS</b>	System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai
<b>HSE</b>	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
<b>LiW</b>	Byw yng Nghymru (Arolygon Eiddo/Aelwydydd)
<b>PAT</b>	Prawf Dyfeisiau Cludadwy
<b>ST</b>	Technolegau Clyfar
<b>SWF&amp;RS</b>	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
<b>TO</b>	Swyddog Technegol
<b>WHQS</b>	Safon Ansawdd Tai Cymru

© Cyflwyniad gan  
Electrical Safety First  
ac argymhellion allweddol

---

# 1. Cyflwyniad gan *Electrical Safety First* ac *Argymhellion Allweddol*

Mae mwy na hanner y tanau damweiniol mewn tai yng Nghymru yn cael eu hachosi gan drydan. Mae casgliadau'r adroddiad hwn yn dangos bod pobl hŷn yng Nghymru mewn perygl anghymesur o ddioddef tân trydanol yn eu cartrefi. Disgwylir y bydd nifer y bobl 80 oed neu fwy yn dyblu erbyn 2035 gyda nifer amcangyfrifedig o 50,000 o bobl 65+ oed yn byw gyda dementia, sy'n creu ei heriau ei hun o ran diogelwch trydanol. Mae'n amlwg bod angen gweithredu i sicrhau bod y boblogaeth sy'n heneiddio hon yn gallu byw mewn cartrefi sy'n ddiogel yn drydanol.

Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn yng Nghymru – tua 80% – yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn stoc dai hŷn sydd erioed wedi cael gwiriad diogelwch trydanol. Mae pobl hŷn yn debygol o ddefnyddio offer trydan hynach a dibynnu ar wresogyddion a blancedi trydan, yn enwedig yn y gaeaf, heb iddynt feddu ar unrhyw offer diogelwch tân yn y cartref.

Yn naturiol, mae llawer o bobl hŷn eisiau byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl, ond mae hyn yn gosod cyfrifoldeb ar unigolion i sicrhau bod eu cartrefi'n ddiogel. Gall pryderon ynglŷn â chost gwaith atgyweirio a diffyg ymwybyddiaeth o'r risgiau olygu bod perchen-feddianwyr yn byw mewn cartrefi sydd â phrif beryglon diogelwch.

## **Mae casgliadau'r adroddiad yn dangos:**

- Bod cyfran sylweddol o bobl hŷn yn dioddef oherwydd tanau domestig, gan gynrychioli traean o'r holl anafiadau o ganlyniad i danau mewn anheddau.
- Y bydd 50,000 o bobl 65+ oed yn byw gyda dementia yng Nghymru erbyn 2025, gan greu heriau ychwanegol o ran diogelwch trydanol yn y cartref.
- Bod pobl dros 80 oed o leiaf bedair gwaith yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o gael eu hanafu mewn tân trydanol.
- Bod marwolaethau a achosir gan gyflenwad tanwydd trydanol yn sylweddol uwch ymhlith pobl dros 80 oed nag mewn grwpiau oedran eraill.

Mae anghydraddoldeb yn y ffordd y caiff diogelwch trydanol yng Nghymru ei ddeddfu, yn ôl deiliadaeth. Mae *Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)* yn pennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer tai diogel yn y sector cymdeithasol, a'r *System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS)* yw'r prif offeryn rheoliadol ar gyfer safonau eiddo yng Nghymru. Mae *Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru* yn cynnig cyngor arfer gorau ar gyfer eiddo rhent preifat, gan argymhell gwiriadau trydanol bob pum mlynedd, ond nid yw cynnal y rhain yn ofynnol yn gyfreithiol. Nid oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol ar berchen-feddianwyr i gynnal a chadw gosodiadau neu wirio offer trydan.

**Mae Electrical Safety First yn argymhell:**

- Bod rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried ariannu cynllun i ddarparu gwiriadau diogelwch trydanol am ddim yn y cartref bob pum mlynedd i bobl dros 80 oed, heb ystyried deiliadaeth eu heiddo.
- Bod rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr gofal i drefnu ymweliadau ychwanegol i gartrefi pobl dros 80 oed er mwyn canfod risgiau ac atal tanau a damweiniau trydanol, fel y gallant fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.
- Bod rhaid ehangu'r mentrau cyfredol a gynhelir gan y gwasanaethau tân ac achub o ran eu gwiriadau diogelwch tân am ddim yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar y peryglon trydanol posibl, ac nid dim ond ar larymau mwg.
- Bod rhaid cyflwyno rheoliadau ar gyfer gwiriadau diogelwch trydanol bob pum mlynedd yn y sector rhent preifat a'r sector rhent cymdeithasol yng Nghymru i helpu i ddiogelu pobl hŷn.
- Wrth godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch trydanol ymhlith pobl hŷn, dylid rhoi ystyriaeth i'r ffaith na fydd gan y rhan fwyaf o'r bobl hyn fynediad rheolaidd i'r rhyngwrwyd, felly mae'n rhaid ystyried ffyrdd gwahanol i'w cyrraedd.

# Crynodeb Gweithredol

---



## 2. Crynodeb Gweithredol

Mae'r Adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth ynglŷn â diogelwch trydanol ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn berchenogion tai. Mae'n darparu cefndir ynghylch y gymdeithas sy'n heneiddio yng Nghymru, gwybodaeth am ansawdd tai Cymru, ac ystadegau yn ymwneud â thanau a damweiniau mewn anheddau, gyda ffocws penodol ar y rhai hynny sy'n tarddu o ffynhonnell neu achos trydanol, ac ar oed y bobl yr effeithir arnynt. Yna mae'n bwrw golwg ar y darpariaethau deddfwriaethol a pholisi a gynlluniwyd i ddiogelu pobl sy'n byw yn y sectorau perchen-feddiannwyr, rhent cymdeithasol a rhent preifat rhag problemau yn ymwneud â diogelwch trydanol. Mae'n diweddu gyda throsolwg ar rai o'r darpariaethau a'r mesurau sydd yn eu lle i helpu pobl hŷn i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi, gydag enghreifftiau o astudiaethau achos arferion da. Llywiwyd yr Adroddiad gan chwiliad llenyddiaeth wrth ddesg; cyfweiliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid allweddol – *Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru*, a phobl sy'n gweithio yn ei asiantaethau cyswllt yn Ne Cymru – sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau i gefnogi pobl hŷn i fyw'n fwy diogel yn eu cartrefi; a barnau gan bobl hŷn eu hunain ynglŷn â'u dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â diogelwch trydanol. Yn ogystal, rhoddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fynediad at wybodaeth ychwanegol ar lefel awdurdod lleol. Casglwyd y data ystadegol yn yr Adroddiad o ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd neu cawsant eu darparu gan uned Ystadegau Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi ein galluogi i graffu ar boblogaeth hŷn Cymru yn nhermau dau brif grŵp – y rhai "hen", 60-79 oed – a'r rhai "hen iawn" sy'n 80 oed neu fwy.

### Y Cyd-Destun Cymreig – Pobl A Lleoedd Mewn Cymdeithas Sy'n Heneiddio

Yn 2015, roedd tua 625,000 o bobl yn 65 oed neu fwy, ac erbyn 2035, amcangyfrifir y bydd 839,200 ohonynt. Rhagamcanir y bydd y cyfrannau o bobl 80 oed neu fwy yn dyblu o tua 5.3% i 9.6% rhwng 2015 a 2035, a gallwn ddisgwyl y bydd dros 75,000 o breswylwyr 90 oed a throsodd yn byw yng Nghymru erbyn hynny. Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn – tua 80% – yn berchen ar eu cartrefi eu hunain; mae 13% a 6% arall yn denantiaid cymdeithasol neu breifat, felly bydd y rhain yn cael budd o ddarpariaethau deddfwriaethol a pholisi mwy diweddar ar gyfer y daliadaethau hyn, yn ymwneud â diogelwch a sicrwydd yn y cartref. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd yn well gan lawer o bobl hŷn heneiddio yn eu cartrefi, ond y bydd rhai yn dewis symud, ac y dylai polisiau a gwasanaethau hwyluso'r dewisiadau hyn. Y neges yma yw y dylai darparwyr gwasanaeth ymdrechu i hwyluso dewisiadau pobl hŷn yn nhermau ble maent eisiau byw. Ond ar ôl dweud hynny, gan fydd y rhan fwyaf yn parhau i fyw yn eu cartrefi yn y gymuned, bydd cyfrifoldeb arnynt hwy i sicrhau bod eu cartrefi'n amgylcheddau diogel i heneiddio ynddynt, yn cynnwys atgyweirio neu ddiweddarau offer a gosodiadau trydanol.

Mae'r amcangyfrifon swyddogol yn dangos y gallai fod tua 50,000 o bobl 65+ oed yn byw gyda dementia yng Nghymru erbyn 2025. Yn achos tua un o bob pedwar person 90 oed neu fwy, bydd problemau colli cof sy'n gysylltiedig â'r cyflwr hwn yn creu heriau newydd yn y cartref mewn perthynas â diogelwch trydanol.

## Casgliadau Allweddol

---

### Tanau a thrydan yng nghartrefi pobl hŷn

- Tanau mewn anheddau<sup>1</sup> – achosion a ffynonellau – trydan ar fai

Rhwng 2009-2010 a 2016-17, gostyngodd nifer y tanau damweiniol a gofnodwyd mewn anheddau o 1,864 i 1,719. Yn 2016-17, *achoswyd* bron 60% gan lidiau neu offer diffygiol, camddefnyddio cyfarpar neu offer, neu gyflenwad tanwydd diffygiol; gellid olrhain tua chwarter i *ffynhonnell dân* yn ymwneud â dosbarthu trydanol (e.e. cyflenwad trydan drwy wifrau, ceblau, plygiau) neu offer trydan (e.e. offer swyddfa, domestig ac offer eraill).

### Tanau mewn anheddau – anafiadau yn ôl oedran

Cofnodwyd rhwng 516 a 639 o anafiadau (marwolaethau, anafiadau heb farwolaeth ac achubiadau) mewn tanau mewn anheddau bob blwyddyn rhwng 2009-10 a 2016-17 (14 marwolaeth, 80 achubiad a 525 o anafiadau heb farwolaeth yn 2016-17).

Mae'r effaith ar bobl "hen" a "hen iawn" yn sylweddol – ers 2009-10 mae'r rhain yn cynrychioli traean o'r holl anafiadau o ganlyniad i danau mewn anheddau: yn 2016-17, roedd 15% o'r dioddefwyr yn "hen" a 14% yn "hen iawn".

Er enghraifft, mae'r cyfraddau anafiadau o ganlyniad i danau mewn anheddau fesul miliwn o'r boblogaeth yn dangos yr effeithiwyd ar 619 o bobl fesul miliwn yn y grŵp oedran "hen iawn" yn 2016-17. Mae hyn yn golygu eu bod dros bum gwaith yn fwy tebygol o brofi tân yn y cartref na phobl ifanc 16 oed ac iau.

### Anafiadau o ganlyniad i danau mewn anheddau – trydan ac oedran

Bob blwyddyn mae rhwng 47% a 58% o'r holl anafiadau o ganlyniad i danau yn cael eu hachosi gan *ffynhonnell dân drydanol*. Mae'r tanau hyn yn effeithio'n sylweddol ar bobl hŷn: ers 2009-10, ar gyfartaledd, pobl hŷn yw tua 37% o'r dioddefwyr hyn. Mae'r cyfraddau fesul miliwn o'r boblogaeth yn cadarnhau hyn: yn 2016-17, roedd pobl "hen iawn" o leiaf bedair gwaith yn fwy tebygol nag unrhyw grwpiau oedran eraill o gael eu hanafu yn y tanau hyn.

### Marwolaethau

Mae nifer y marwolaethau'n isel ac felly braidd yn anwadal, ond ble maent wedi digwydd mewn tanau a achoswyd gan gyflenwad tanwydd trydanol, pobl "hen iawn" oedd â'r cyfraddau uchaf fesul miliwn o'r boblogaeth, o gymharu â grwpiau oedran eraill, yn 6 o'r 8 mlynedd rhwng 2009-10 a 2016-17.

Drwy rannu'r ystadegau yn ddau grŵp, sef pobl "hen" (60-79) a "hen iawn" (80+), gallwn weld yn gliriach bod symud i'r cyfnod oes diweddarach yn cynyddu'r risg o brofi tân mewn annedd ynddo'i hun, a bod hyn yn cynyddu'n fwy fyth pan fod pobl yn cyrraedd 80 a thu hwnt. Mae'n bwysig cydnabod hyn gan fod y boblogaeth o'r rhai sydd â dementia yn debygol o gynyddu ymhlith y grŵp oedran hwn yn arbennig.

## Ansawdd tai Cymru fel cyd-destun ar gyfer diogelwch trydanol

Bydd data newydd ynglŷn â stoc dai Cymru ar gael pan gyhoeddir canlyniadau'r *Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18* cenedlaethol.

Yn 2008, roedd tua 4% o anheddau *heb fod yn ffit* i bobl fyw, yn ôl y mesur *Safon Ffitrwydd*, gan amlaf oherwydd diffyg atgyweirio; roedd anheddau rhent preifat a hen anheddau yn fwy tebygol o beidio â bod yn ffit. Yn 2004, roedd 4 o bob 10 person 55+ oed yn byw mewn anheddau a adeiladwyd cyn 1945, a chwarter o'r rhain wedi eu hadeiladu cyn 1918; gall ôl-osod stoc dai hŷn at ddibenion diogelwch a chysur fod yn anodd neu'n amhosibl.

Mae'r *System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS)*, a ddisodlodd y *Safon Ffitrwydd*, yn nodi nifer y peryglon mewn anheddau, yn cynnwys categori peryglon "atal damweiniau". Yn 2008, roedd tua 3 o bob 10 annedd yng Nghymru yn dangos un neu fwy o'r peryglon mwyaf difrifol.

## Diogelwch Trydanol Yn Stoc Dai Cymru

---

### Fframweithiau deddfwriaethol a pholisi

Caiff diogelwch trydanol yng Nghymru ei reoleiddio a'i ddeddfu mewn amrywiol ffyrdd, yn enwedig o ran y sectorau rhent cymdeithasol a phreifat.

- *Safon Ansawdd Tai Cymru – WHQS*

Dyma'r safon y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl dai cymdeithasol ei bodloni erbyn 2020, ac mae'n cynnwys ansawdd llety. Mae ar awdurdodau lleol ddyletswydd gofal i sicrhau bod y safon yn cael ei bodloni. Mae'r *WHQS* yn pennu 'gofynion sylfaenol' ar gyfer bodloni'r safon ac mae Llywodraeth Cymru'n ei defnyddio i fonitro pa mor dda mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn gwneud cynnydd o ran cydymffurfio â'r safon. Nid yw'n berthnasol i'r sector rhent preifat.

Mae rhai problemau gyda manylebau'r *WHQS* o ran offer, gosodiadau a gosodiadau gwresogi trydanol. Er enghraifft, mae'r safon ardystio ar gyfer goleuadau trydanol a gosodiadau pŵer yn ofynnol bob 10 mlynedd, ond yn flynyddol ar gyfer cyflenwadau tanwydd eraill. Hefyd, gall y landlordiaid gynnal archwiliad o offer trydanol o hunain; mae hyn yn golygu nad yw'n ofynnol cael person â chymwysterau addas i gynnal yr archwiliadau hyn.

- *System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai – HHSRS*

Defnyddir y system hon gan landlordiaid i asesu safonau eu hadeiladau preswyl a phenderfynu a ydynt yn ddiogel neu'n beryglus i fyw ynddynt; mae hefyd yn rhoi opsiynau gorfodi i awdurdodau lleol os bydd peryglon yn dod i'r amlwg. Mae asesu peryglon offer sefydlog a systemau trydanol yn seiliedig, i gychwyn, ar archwiliad gweledol a gynhelir gan y landlord ei hunan yn hytrach na gan drydanwr cymwysedig/peiriannydd trydanol.

- Rannau P ac M y Rheoliadau Adeiladu

Mae'r rhain yn darparu safonau ar gyfer pob math o waith adeiladu ac maent yn cynnwys manylebau ynglŷn â diogelwch a gosodiadau trydanol. P'un ai fod y gwaith wedi ei wneud gan weithwyr proffesiynol

neu fel eu gwaith eu hun, mae'n ofynnol i landlordiaid a pherchenogion tai brofi'n gyfreithiol bod unrhyw waith gosod trydanol yn ateb gofynion *Rhan P* ac mae gan awdurdodau lleol yr awdurdod i newid gosodiadau neu gael gwared â hwy os nad ydynt yn cydymffurfio. Mae *Rhan M* yn pennu'r gofynion ynglŷn â diogelwch trydanol yn nhermau uchder allfeydd socedi, switshis ac unedau defnyddiwr.

### Tai rhent cymdeithasol

- Lefelau cydymffurfio â'r *WHQS*

Yn 2016, roedd 79% o anheddau tai cymdeithasol yn bodloni'r *WHQS*, o gymharu â 72% yn y flwyddyn flaenorol.

Yn 2015-16, roedd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cyflawni lefelau uwch o gydymffurfiad na'r awdurdodau lleol (tua 96% a 54% yn eu trefn), er bod tua chwarter o anheddau tai cymdeithasol wedi derbyn cydymffurfiad dan *amodau methiannau derbyniol* (e.e. cost unioni, amseriad yr unioni, dewis y preswylwr a chyfyngiad ffisegol; gall tenant wrthod gwaith ac mae'n rhaid iddynt lofnodi ffurflenni hawliiddio). Nid oedd tua 7% o anheddau awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cydymffurfio â gofynion y *WHQS* ar gyfer systemau trydanol, ac unwaith eto roedd landlordiaid cymdeithasol yn cyflawni lefelau cydymffurfiad uwch (99.4% o gymharu ag 83.5%).

### Tai rhent preifat

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Cod Ymarfer* ("y Cod" Hyd 2015) ar gyfer landlordiaid ac asiantau trwyddedig yn y sector rhent preifat ynglŷn â safonau ar gyfer gosod a rheoli eiddo rhent; ei nod yw gwella'r arferion yn y sector hwn.

Yn y safonau a amlinellir yn y *Cod Ymarfer* nid yw'n ofynnol i landlordiaid neu asiantau ddarparu tystysgrif diogelwch trydanol gyfredol ar gyfer offer i'w tenantiaid cyn iddynt symud i mewn; mae'n ofynnol iddynt roi *Tystysgrif Diogelwch Nwy Landlordiaid* iddynt, wedi ei dyddio o fewn y 12 mis diwethaf os oes unrhyw offer nwy yn yr eiddo.

Mewn perthynas â chyflwr eiddo, mae'r *Cod Ymarfer* yn nodi: "*y dylai gwiriad ar y gosodiad trydanol gael ei gynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan drydanwr cymwys, a dylai'r canlyniadau ... gael eu cofnodi ar ffurf Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol*"; fodd bynnag, mae'r manylebau hyn wedi eu cynnwys ar ffurf "*Arfer gorau*" sy'n golygu nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar landlordiaid ac asiantau gosod i gynnal y cyfryw wiriadau.

Nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol i landlordiaid preifat gynnal prawf PAT ar offer cludadwy.

### Tai perchen-feddiannwyr

Dangosodd *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008*, a oedd yn mesur yr *HHSRS*, bod anheddau perchen-feddiannwyr yn fwy tebygol na deiliadaethau eraill o gynnwys y perygl Categori 1 mwyaf difrifol, ac mae'r rhain yn cynnwys perygl trydanol.

### Cynnal offer a gosodiadau trydanol ar gyfer perchenogion tai

Mae tystiolaeth ansoddol o'n cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid a dinasyddion hŷn wedi amlygu nifer o ffactorau sy'n bwysig o ran ceisio mynd i'r afael â'r risgiau o achosion trydanol, yn cynnwys costau atgyweirio a gwaith cynnal a chadw, ac agweddau ac ymddygiad tuag at ddiogelwch trydanol:

- gall costau gwaith trydanol fod yn waharddol, a gall amrywiadau yng nghyllid awdurdodau lleol effeithio ar faint o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwaith unioni;
- wrth fynd ati i ddatrys problemau trydanol sylfaenol, yn aml nodir materion cylchedau trydan mwy cymhleth sy'n rhy gostus i fynd i'r afael â nhw;
- pan fyddant yn wynebu costau gwaharddol, mae rhanddeiliaid yn nodi y bydd rhai pobl hŷn naill ai'n gwneud gwaith trydanol eu hun neu'n gofyn i drydanwyr anghymwys ei wneud;
- mae agweddau pobl tuag at ddiogelwch offer trydan hefyd yn awgrymu y gellid codi ymwybyddiaeth ymhlith perchenogion tai hŷn o'r peryglon sydd ynghlwm wrth gadw hen offer.

## Cartrefi Gofal

Mae *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* yn nodi bod perchenogion a rheolwyr cartrefi gofal yn gyfrifol am sicrhau bod y cartrefi maent yn eu rhedeg yn ddiogel ac yn sicr. Mae'r *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol – CSSIW* yn monitro safonau mewn cartrefi gofal ac mae'r rhain yn cynnwys diogelwch.

Er mwyn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer llety unigol i bobl hŷn, mae'n rhaid i'r dodrefn a'r addurniadau gynnwys o leiaf dau soced trydan dwbl hygyrch i bob preswylwr. Mae'r *CSSIW* hefyd yn cyfeirio at ganllawiau a ddarperir gan *Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch* ynglŷn â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer offer trydan mewn amgylcheddau fel cartrefi gofal.

Yn achos gosodiadau trydanol sefydlog, rhaid i'r rhain gael eu harchwilio a'u profi gan arbenigwr bob pum mlynedd neu lai yn dibynnu ar yr asesiad risg a gynhaliwyd gan y gweithiwr proffesiynol. Os yw staff cartrefi gofal yn cynnal gwiriadau gweledol ar osodiadau trydanol, mae'n rhaid iddynt gael eu hyfforddi i wneud felly.

Ar gyfer offer trydan cludadwy (e.e. tegelli, tostwyr), nid yw profi'n flynyddol yn ofynnol yn gyfreithiol felly gall rheolwyr neu berchenogion cartrefi gofal benderfynu ar amllder a lefel y gwaith cynnal a chadw, ac yn gyffredinol ystyrir bod archwiliad gweledol yn ddigonol, gyda rhai eithriadau ar gyfer profi PAT.

## Diogelwch yn y Cartref yng Nghymru

### Costau ariannol peryglon trydanol

Mae *Arolygon Cartrefi ac Eiddo Byw yng Nghymru 2008* yn darparu gwybodaeth ynglŷn â pheryglon yn y cartref, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â diogelwch tân a thrydanol, sy'n rhan o'r peryglon Categori 1 mwyaf difrifol. Yn 2008, roedd 70% o'r holl anheddau heb unrhyw berygl C1; y perygl mwyaf oedd y risg o syrthio (13.3%) ac oerfel gormodol (11%). Cafwyd peryglon diogelwch tân neu drydanol mewn llai nag 1% o anheddau. Fodd bynnag, o ran costau ariannol, y ddau berygl hyn yw'r mwyaf costus i'w hunioni o'u hamcangyfrif fesul annedd – £10,400 am beryglon tân a £22,500 am beryglon trydanol.

### Diogelwch tân yn y cartref

Holodd *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008* ynglŷn â mesurau atal tân, a chafwyd mai'r offer diogelwch tân mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd oedd larymau mwg, ffenestri sy'n agor yn llydan, diffoddwyr tân a blancedi tân, ond cafwyd hefyd mai aelwydydd gyda phobl hŷn (60+), a'r bobl sydd mewn aelwydydd gyda phensiynwyr yn unig, oedd y lleiaf tebygol o feddu ar unrhyw rai o'r gosodiadau ataliol hyn yn eu cartrefi.

Dangosodd *Arolwg Cenedlaethol Cymru* ar gyfer 2013-14 nad oedd 7% o aelwydydd gyda phobl 60 oed neu fwy yn meddu ar larwm mwg yn y cartref neu roedd ganddynt un ond nid oedd yn gweithio (5% heb un o gwbl, a 2% gydag o leiaf un ond heb fod yn gweithio). Mae hyn wedi gwella ers 2008 pan oedd tua 75% o aelwydydd gyda phobl hŷn heb larwm tân wedi'i bweru gan brif gyflenwad trydan.

## Diogelwch yn y cartref a byw gyda dementia

Mewn trafodaethau grwpiau ffocws gyda phobl hŷn, gwelwyd sut gall colli cof newid amgylcheddau cartref oedd gynt yn ddiogel yn rhai ble mae tebygrwydd cynyddol o berygl.

Gallai *Gweledigaeth Dementia Genedlaethol i Gymru* (2011) a'i strategaeth *Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru sy'n Ystyriol o Dementia 2017-2022* adlewyrchu materion diogelwch trydanol yn y cartref, ac archwilio atebion posibl, er enghraifft trwy ehangu eu hagendâu i gynnwys defnyddio technolegau clyfar fel mesurau ataliol.

## Cefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi'n ddiogel

Mae'r tri *Awdurdod Tân ac Achub* (FRA) yng Nghymru, sy'n gwasanaethu Gogledd, Canolbarth a Gorllewin, a De Cymru, yn cydnabod yr heriau o ran diogelu poblogaeth sy'n heneiddio, ac yn canolbwyntio ar fentrau atal a chydweithredu trawsbartneriaeth, sy'n cynnwys diogelwch trydanol.

Mae *Gofal a Thrwsio Cymru* a'i asiantaethau cyswllt yn cynnig cyngor a gwasanaethau ymarferol ledled Cymru sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi. Yn 2015-16, cafodd eu cleientiaid fudd o amrywiaeth o welliannau diogelwch trydanol yn cynnwys gwiriadau/adolygiadau diogelwch trydanol (103 wedi'u cwblhau), ailweirio llawn neu rannol ar eu gosodiadau trydanol (181 wedi'u cwblhau), a gwelliannau i osodiadau socedi trydan (141 wedi'u cwblhau). Mae *Gofal a Thrwsio Cymru* yn gweinyddu cronfa fechan ar ran *Electrical Safety First*: yn 2016 cafodd 39 o gleientiaid gymorth ganddynt drwy'r gronfa hon, gyda gwariant cyfartalog o £256 y cleient.

## Codi ymwybyddiaeth – gwybodaeth awdurdod lleol trwy'r we

Os oes gan bobl hŷn fynediad i'r rhyngwrwyd, gallant ddod o hyd i wybodaeth am ddiogelwch trydanol ar wefan eu hawdurdod lleol. Fodd bynnag, mae data o arolwg diweddar yn dangos bod cyrchu gwybodaeth a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus y llywodraeth ar-lein yn rhywbeth y mae pobl hŷn yn annhebygol o'i wneud. Er enghraifft, roedd 69% o bobl iau rhwng 16-29 oed, a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwyd o leiaf unwaith yr wythnos, wedi ymweld â gwefan y llywodraeth neu wasanaethau cyhoeddus er defnydd personol dros y 12 mis diwethaf, o gymharu â dim ond 35% o bobl 75 oed neu fwy.

Mae *Arolwg Cenedlaethol Cymru* yn dangos hefyd mai pobl hŷn yw'r rhai lleiaf tebygol o fod yn defnyddio'r rhyngwrwyd ar hyn o bryd.

Mae rhai darparwyr gwasanaeth yng Nghymru yn cydnabod cyfyngiadau ffynonellau gwybodaeth ar-lein ac maent yn targedu grwpiau agored i niwed trwy strategaethau cyfathrebu mwy uniongyrchol.

Yn ôl cyfranogwyr grwpiau ffocws, pe byddai yna un neges yr hoffent ei hanfon at Lywodraeth Cymru ynglŷn â diogelwch trydanol a phobl hŷn, ar ran perchenogion tai, y neges honno fyddai: "*Cael rhywun i ddod i'ch cartref i wirio*".

## Diolchiadau

---

Hoffem ddiolch i'r dinasyddion hŷn sy'n byw yng Nghymru a gytunodd i gymryd rhan yn natblygiad yr Adroddiad hwn trwy roi o'u hamser a'u syniadau i ni fel aelodau o'r tri gwahanol grŵp ffocws. Estynnwn ddiolch arbennig i *Gofal Solfach*, aelodau Cynhadledd Flynyddol 2017 *Cymdeithas Gerontoleg Prydain*, trefnwyr y digwyddiad "*An audience with...*", a'r grŵp "*With Music in Mind*" am ein helpu i drefnu, rhedeg a chymryd rhan yn y grwpiau ffocws hyn.

O ran y rhanddeiliaid sydd wedi rhoi o'u gwybodaeth arbenigol wrth helpu i gasglu'r sail dystiolaeth ar gyfer yr Adroddiad, hoffem ddiolch hefyd i *Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru*, *Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*, *Gofal a Thrwsio Cymru*, ac asiantaethau yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Mae uned *Ystadegau Diogelwch Cymunedol* Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth amhrisiadwy wrth ddatblygu peth o'r cynnwys ystadegol yn yr Adroddiad a hoffem ddiolch iddynt am eu hamser a'u harbenigedd wrth sicrhau dehongliad trwyadl o'r data Cymreig.

© Y Gymdeithas Sy'n  
Heneiddio Yng Nghymru –  
Pobl A Lleoedd

---




### 3. Y Gymdeithas Sy'n Heneiddio Yng Nghymru – Pobl A Lleoedd

#### Poblogaeth

Mae poblogaethau Ewrop yn heneiddio ac mae hyn yn golygu bod niferoedd a chyfrannau'r dinasyddion hŷn yn cynyddu, a byddant yn parhau i wneud dros y degawdau nesaf<sup>2</sup>. Mae'r nifer fawr o fabanod a anwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd – “Cenhedlaeth y Cynnydd” (Baby Boomers) – hefyd yn ychwanegu at y broses hon.

Nid yw Cymru'n eithriad o ran y newidiadau hyn ac mae strwythur ei phoblogaeth yn hŷn na'r Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon<sup>3</sup>. Yn 2015, roedd 3.1 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru, gyda thua 625,000 yn 65 neu fwy, ac erbyn 2035 bydd eu niferoedd wedi tyfu i bron 839,200. Golyga hyn y bydd tua 1 o bob 4 person yng Nghymru yn 65 a throsodd erbyn hynny. Mae Graff 2.1 yn dangos sut fydd y grŵp oedran hwn yn tyfu fel cyfran o gyfanswm poblogaeth Cymru rhwng 2015 a 2035.



Mae'r boblogaeth hŷn yn heneiddio hefyd, felly yn y dyfodol agos, rhagamcanir y bydd y cyfrannau o bobl sy'n 80 oed neu fwy yn dyblu rhwng 2015 a 2035 o tua 5.3% i 9.6%, a bydd eu niferoedd yn cynyddu o tua 161,700 i 301,700. Gallwn hefyd ddisgwyl y bydd dros 75,000 o breswylwyr sy'n 90 oed a throsodd yn byw yng Nghymru erbyn hynny.

## Y Boblogaeth sy'n Byw gyda Dementia

Yn 2015, amcangyfrifwyd bod 38,830 o bobl 65 oed neu fwy yn byw gyda dementia, ac roedd tua 2 o bob 3 yn fenywod. Mae'r tebygrwydd o fyw gyda dementia'n codi gydag oedran: yn 2015, roedd yn effeithio ar 7.6% o bobl 65-69 oed, o gymharu â 22.4% o bobl 90 oed neu fwy<sup>4</sup>. Bydd niferoedd y bobl sydd â dementia yn y dyfodol yn tyfu wrth i'r boblogaeth heneiddio; mae'r amcangyfrifon swyddogol yn awgrymu y gallai fod tua 50,000 o bobl 65+ oed yn byw gyda'r cyflwr yng Nghymru erbyn 2025, gydag un o bob pedwar yn 90 oed neu fwy<sup>5</sup>.

## Ble Mae Pobl Hŷn yn Byw?

Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn yn byw yn eu cartrefi eu hunain fel perchen-feddianwyr. Yn 2011, roedd 81%<sup>6</sup> o bobl 65 oed neu fwy yng Nghymru yn berchen ar neu'n rhannu perchenogaeth ar eu heiddo. Roedd 13% arall yn byw yn y sector rhent cymdeithasol, a 6% yn y sector rhent preifat neu'n byw'n rhydd o rent. Ar hyn o bryd, dim ond data cyfyngedig sydd ar gael am ddeiliadaeth tai pobl hŷn, felly nid oes gennym ddarlun cywir o'r niferoedd sy'n byw mewn tai gwarchod neu ofal ychwanegol. Mae ffigurau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r stoc rhent cymdeithasol yn 2017 yn dangos bod tua 193,300 o unedau yn darparu ar gyfer tai anghenion cyffredinol, 33,000 ar gyfer tai â chymorth (yn cynnwys gwarchod), a 2,300 yn unedau gofal ychwanegol; nid yw'r ffigurau hyn yn dweud wrthym p'un ai fod yr unedau mewn deiliadaeth yn wir, na chyfanswm y deiliaid<sup>7</sup>. Ar hyn o bryd, cyfrannau bach iawn o'r boblogaeth hŷn sy'n byw mewn lleoliadau gofal cartref yng Nghymru a Lloegr (yn 2011, tua 3% o bobl 65 oed neu fwy).<sup>8</sup> Mae hyn yn awgrymu eu bod yn llwyddo i aros yn eu cartrefi eu hunain gyda chymorth gan eu cymunedau lleol a gwasanaethau lleoledig.

Yn eu Hadroddiad<sup>9</sup> diweddar ynglŷn â'r materion a'r atebion posibl o ran diwallu anghenion tai poblogaeth sy'n heneiddio, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y dylai pobl hŷn allu byw'n annibynnol yn eu lle dewisol, naill ai drwy aros yn eu cartref a *heneiddio yn eu lle* neu drwy symud i lety mwy addas os yw'n well ganddynt wneud hyn<sup>10, 11</sup>. Ar sail peth o'r dystiolaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad, un o'r pwyntiau gweithredu allweddol a amlygwyd yw y dylai Cymru:

*“Barhau i fuddsoddi yn, a chryfhau, gwasanaethau cymhorthion ac addasiadau a'r sefydliadau sy'n darparu'r rhain, gan ehangu eu rôl ble bo'n bosibl i alluogi mwy o bobl i “aros yn eu cartref” neu symud i amgylchedd mwy diogel (ein pwyslais ni), sy'n fwy effeithlon o ran ynni, yn fforddiadwy ac yn ymgysylltu â chymorth cymunedol” (Llywodraeth Cymru, 2017: 17).*

Y neges bwysig yma yw y dylai darparwyr gwasanaeth ymdrechu i hwyluso'r dewisiadau i bobl hŷn o ran ble maent eisiau byw. Ond ar ôl dweud hynny, gan fydd y rhan fwyaf yn parhau i fyw yn eu cartrefi yn y gymuned, bydd cyfrifoldeb arnynt hwy i sicrhau bod eu cartrefi'n amgylcheddau diogel i heneiddio ynddynt, yn cynnwys atgyweirio neu ddiweddarau offer a gosodiadau trydanol.

## Ansawdd Tai yng Nghymru fel Cyd-destun ar gyfer Diogelwch Trydanol

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yng Nghymru<sup>12</sup> yn dangos bod cyfran fawr o bobl hŷn 65 oed neu fwy yn byw mewn hen stoc dai sy'n golygu bod ôl-osod at ddibenion diogelwch a chysur yn aml yn anodd neu'n amhosibl. Yn 2004 er enghraifft, roedd tua 40% yn byw mewn anheddau a adeiladwyd cyn 1945, ac roedd chwarter o'r rhain wedi ei hadeiladu cyn 1918.<sup>13</sup>

Yn 2008, dosbarthwyd tua 4% o anheddau yng Nghymru<sup>14</sup> fel heb fod yn ffit i bobl fyw yn ôl y mesur *Safon Ffitrwydd*, gan amlaf oherwydd atgyweirio annigonol, gydag anheddau rhent preifat a hen anheddau yn fwy tebygol o beidio â bod yn ffit. Fodd bynnag mae'r gyfran hon wedi gostwng fesul tipyn dros y blynyddoedd diwethaf.

Disodlwyd y *Safon Ffitrwydd* gan y *System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS)*, sy'n helpu i asesu ansawdd a diogelwch tai yng Nghymru trwy gofnodi nifer y peryglon mewn anheddau, ac sy'n cynnwys categori peryglon "atal damweiniau". Yn 2008, roedd gan tua 3 o bob 10 annedd un neu fwy o'r peryglon mwyaf difrifol<sup>15</sup>.

Bydd *Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18*<sup>16</sup> yn caniatáu i ni gipio gwybodaeth fwy cyfredol am anheddau sydd â pheryglon a'r rhai hynny sy'n cydymffurfio â nodweddion diogelwch trydanol, ac a fesurwyd fel rhan o'r *WHQS* a'r *HHSRS*.

Mae'r ffigurau diweddar am 2015-16<sup>17</sup> ynglŷn â chymorth awdurdodau lleol ar gyfer gwelliannau i dai yng Nghymru (e.e. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer tai sector preifat neu gynlluniau adnewyddu tai cymdeithasol) yn dangos bod cyfran yr anheddau a gafodd eu gwella i bobl hŷn 60 oed neu fwy wedi cynyddu o 32% i 35%. Nid oes modd gwybod ar sail y wybodaeth sydd ar gael p'un ai fod y gwelliannau hyn yn cwmpasu gosodiadau trydanol, ond fel y nodwyd yn un o'n cyfweiliadau gyda Swyddog Technegol *Gofal a Thrwsio Cymru*, mae amrywiad sylweddol o ran faint sy'n cael ei wario ar wella anheddau, yn dibynnu ar adnoddau'r awdurdodau lleol.

## Beth Ydyn Ni'n Gwybod am Danau a Thrydan yng Nghartrefi Pobl Hŷn?

### Tanau mewn anheddau – achosion a ffynonellau – trydan ar fai

Rhwng 2009-2010 a 2016-17, gostyngodd nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru o 1,846 i 1,719<sup>18</sup>. Gwelwyd canrannau tebyg rhwng 2009-10 a 2016-17 ar gyfer Gogledd Cymru (25.7%), ychydig dros draean yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (32.8%), a'r gweddill yn Ne Cymru.

Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2016-17 yn dangos y cafodd bron 60% o'r tanau hyn eu hachosi<sup>19</sup> gan lidiau neu offer diffygiol<sup>20</sup>, camddefnyddio cyfarpar neu offer, neu gyflenwad tanwydd diffygiol (Tabl 2.1<sup>21</sup>).

**Tabl 2.1.** Achosion tanau cynradd damweiniol mewn anheddau. 2016-17 (N = 1,719)

	Cyflenwad tanwydd diffygiol	Lidiau neu gyfarpar diffygiol	Camddefnyddio cyfarpar neu offer	Sosban sglodion/ Ffriwr dwfn	Chwarae â tân	Trin yn ddiotal	Rhoi pethau'n rhy agos at wres	Arall	Cyfanswm %
% yn ôl achos	11.2	14.4	33.3	7.7	0.4	7.6	11.9	13.4	<b>100</b>

Fel y gwelir yn Nhabl 2.2, gellid olrhain bron hanner y tanau hyn i bethau a allai gynnau tân – “y fflam, y wreichionen neu'r gwres a gychwynnodd y tân” – yn ymwneud ag offer coginio, a thua chwarter arall o'r problemau yn ymwneud â dosbarthu trydanol (e.e. cyflenwad trydan i'r weirio, ceblau, plygiau) neu offer trydan (e.e. offer swyddfa, domestig ac offer eraill).

**Tabl 2.2.** Ffynhonnell tanau cynradd damweiniol mewn anheddau. 2016-17 (N = 1,719)

	Cyfanswm %
Deunyddiau ysmegu	6.6
Matsys a chanhwyllau	4.0
Offer coginio	48.3
Offer gwresogi gofod	4.5
Offer gwresogi canolog a gwresogi dŵr	1.7
Chwythlampau, offer weldio ac offer torri	0.6
Dosbarthu trydan	11.4
Cyfarpar trydanol arall	12.9
Ffynonellau eraill	7.9
Anhysbys	2.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>100</b>

## Tanau mewn anheddau – anafiadau

Gan fod ffocws yr Adroddiad hwn ar bobl hŷn, medrodd Llywodraeth Cymru roi ystadegau i ni ynglŷn ag anafiadau oherwydd tanau a digwyddiadau cysylltiedig â thrydan ar gyfer dau grŵp oedran gwahanol, pobl rhwng 60-79 (yr “hen”) a phobl 80 neu fwy (yr “hen iawn”). Mae hyn yn gwneud synnwyr oherwydd gall y risgiau oherwydd eiddilwch a cholli defnydd o fwy nag un o'r synhwyrâu gynyddu gydag oedran, ac o bosib cynyddu'r tebygrwydd o gael problem gydag offer neu osodiadau trydanol.


Mae niferoedd yr anafiadau mewn tanau<sup>22</sup> mewn anheddau'n<sup>23</sup> isel yng Nghymru – cafodd rhwng 516 a 639 eu cofnodi bob blwyddyn rhwng 2009-10 a 2016-17. Yn 2016-17, cafwyd 14 marwolaeth, 80 achubiad a 525 anaf heb farwolaeth.

Mae data ynglŷn â'r amgylchiadau penodol ble cafwyd anafiadau angheuol a heb farwolaeth (e.e. bod yn gaeth i'r gwely, darganfod y tân) yn 2016-17 yn dangos bod tua 3% yn *gaeth i'w gwely neu gadair* (n=14) ac roedd gan 2% arall (n=10) *gyfyngiadau symudedd eraill*. Er bod niferoedd y bobl a ganfuwyd yn yr amgylchiadau penodol hyn wedi parhau'n isel dros y cyfnod 2009-10 i 2016-17, ar gyfartaledd, roedd y rhan fwyaf o'r dioddefwyr hyn (tua 81%) yn 60 oed neu fwy.

## Tanau mewn anheddau – damweiniau yn ôl oedran

Yn ôl Graff 3.1, ers 2009-10 mae pobl hŷn 60 oed neu fwy yn cynrychioli tua thraean o'r holl anafiadau o ganlyniad i danau mewn anheddau. Yn 2016-17, roedd 29% dros 60 oed (15% yn “hen” a 14% “yn hen iawn”), o gymharu â 36% o anafiadau ymhlith pobl 30-59 oed, 13% ymhlith oedolion ifanc 17-29 oed, ac roedd 11% yn blant. Mae pobl “hen” a “hen iawn” felly yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan danau.


**Graff 3.1.** % yr anafiadau yn yr holl danau mewn anheddau yn ôl oedran a blwyddyn



### Tanau mewn anheddau – anafiadau yn ôl trydan ac oedran


Mae niferoedd y bobl a anafwyd yn y cartref oherwydd tân yn ymgodi o ffynhonnell drydanol wedi aros yn gymharol gyson ers 2009, yn amrywio o 261 o gyfanswm o 558 i 334 o 619 yn 2016-17. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bob blwyddyn bod rhwng 47% a 58% o'r holl anafiadau oherwydd tân wedi cael eu hachosi gan ffynhonnell dân drydanol. Mae'r tanau hyn yn effeithio'n sylweddol ar bobl hŷn hefyd: ers 2009-10, ar gyfartaledd, roedd tua 37% o'r dioddefwyr hyn yn bobl hŷn. Yn 2016-17 (Graff 3.2) roedd tua 13% yn "hen" ac 18% yn "hen iawn". Yn y flwyddyn flaenorol roedd y grwpiau hyn yn 35% o'r holl bobl a fu mewn tân yn y cartref a gychwynwyd gan ffynhonnell drydanol.

**Graff 3.2.** % yr anafiadau mewn tanau mewn anheddau a achoswyd gan gyflenwad trydanol, yn ôl oedran a blwyddyn




Wrth edrych ar y niferoedd o ran cyfraddau anafiadau oherwydd tanau mewn anheddau fesul miliwn o'r boblogaeth, nid yw'r cyfraddau wedi newid llawer dros y degawd diwethaf, ond mae Graff 3.3 yn dangos mai'r "hen iawn" yw'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o bell ffordd.

**Graff 3.3.** Cyfraddau anafiadau oherwydd tanau mewn anheddau fesul miliwn o'r boblogaeth, yn ôl oedran a blwyddyn




Yn 2016-17 er enghraifft, effeithiwyd ar 619 o bobl fesul miliwn yn y grŵp oedran hwn, gan olygu eu bod pum gwaith yn fwy tebygol o fod wedi profi tân yn y cartref na phobl ifanc 16 oed ac iau.

Mae'r cyfraddau ar gyfer tanau mewn anheddau a achoswyd gan ffynhonnell drydanol yn dangos yr un patrwm (gweler Graff 3.4): yn 2016-17, roedd pobl "hen iawn" o leiaf bedair gwaith yn fwy tebygol nag unrhyw grwpiau oedran eraill o gael anafiadau yn y tanau hyn.




### Marwolaethau

Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau marwolaeth, anaf ac achub ar gyfer tanau mewn anheddau wedi aros yn eithaf sefydlog ers 2009, ond fel y gwelir yn Graff 3.5, yr "hen iawn" yw'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o golli eu bywydau yn y tanau hyn, yn cynnwys y rhai hynny ble mai trydan oedd ffynhonnell y tân. (gweler Graff 3.6).




**Graff 3.6.** Cyfraddau marwolaethau oherwydd tanau mewn anheddau ble roedd y cyflenwad pŵer yn drydanol, fesul miliwn o'r boblogaeth yn ôl oedran a blwyddyn



### Achosion anafiadau

Wrth edrych ar wahanol achosion yr anafiadau mewn tanau damweiniol mewn anheddau, ychydig iawn a achoswyd gan gyflenwad tanwydd trydanol diffygiol (rhwng 13 a 41 rhwng 2009-10 a 2016-17). Yn 2016-17 er enghraifft, mae Graff 3.7 yn dangos eu bod yn rhoi cyfrif am 6.1% o'r holl anafiadau, ac yn 2011-12, dim ond 2.5%.


**Graff 3.7.** % yr anafiadau mewn tanau damweiniol mewn anheddau yn ôl achos a blwyddyn



Fodd bynnag, er bod niferoedd y marwolaethau'n isel, ac felly'n eithaf anwadal, yn ôl Graff 3.8, yn nhermau'r cyfraddau fesul miliwn o'r boblogaeth a phan mai cyflenwad tanwydd trydanol oedd yr achos, yr "hen iawn" oedd â'r cyfraddau marwolaeth uchaf o gymharu â grwpiau oedran eraill ar gyfer 6 o'r 8 mlynedd rhwng 2009-10 a 2016-17.



**Graff 3.8.** Cyfraddau anafiadau oherwydd tanau mewn anheddau a achoswyd gan gyflenwad trydanol diffygiol, fesul miliwn o'r boblogaeth yn ôl oedran a blwyddyn



Drwy rannu'r ystadegau yn ddau grŵp, sef pobl "hen" (60-79) a "hen iawn" (80+), gallwn weld yn gliriach bod mynd ymlaen i'r cyfnod oes diweddarach yn cynyddu'r risg o brofi tân yn y cartref ynddo'i hun, a bod hyn yn cynyddu'n fwy fyth pan fod pobl yn cyrraedd 80 a thu hwnt. Mae'n bwysig cydnabod hyn gan fod poblogaeth y rhai hynny sydd â dementia yn debygol o gynyddu ymhlith y grŵp oedran hwn yn arbennig.

Ar hyn o bryd, nid yw'r ystadegau ynglŷn â thanau ac anafiadau yn ôl deiliadaeth ar gael yn rheolaidd yng Nghymru, ond mae peth o'r adborth gan randdeiliaid yn y sector tân a diogelwch yn awgrymu bod deiliadaeth ac oedran yn ffactorau pwysig i'w hystyried o ran atal tanau a diogelwch tân, ynghyd ag amddifadedd cymharol yr ardaloedd ble mae pobl yn byw.

**Cyfwelydd:** "Ydych chi'n credu bod deiliadaeth yn bwysig mewn perthynas â rheoli risgiau diogelwch trydanol ar gyfer pobl hŷn?"

**Atebydd:** *Pan gychwynnodd ein prosiect, roeddem yn gwneud pawb dros 65 oed ac roedd y rhain yn cael eu rhannu'n ddau grŵp, yn dibynnu'n sylfaenol ar fudd-daliadau a thai cymdeithasol, ac yna byw'n annibynnol ... roedd yna hollt amlwg drwy'r canol (yn nhermau risgiau) ... rydym wedi gweld cynnydd yn y rhai dros 65; maent yn agored i niwed mewn tai cymdeithasol yn hytrach na'n byw'n annibynnol. Rwy'n credu ei fod yn ymwneud ag ardaloedd o amddifadedd hefyd. Mae cysylltiadau rhwng amddifadedd a pherygl tân."*

At ddibenion monitro, gellid darparu ystadegau sy'n gwahaniaethu rhwng achosion ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn anheddau yn ôl y math o ddeiliadaeth.

Diogelwch Trydanol  
Yn Stoc Dai Cymru

---

## 4. Diogelwch Trydanol Yn Stoc Dai Cymru

Yn dilyn y digwyddiadau diweddar yn Llundain gyda thrychineb Tŵr Grenfell, sefydlodd Llywodraeth Cymru *Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Tân* ym mis Gorffennaf 2017, gyda'r nod o ganolbwyntio ar ddiogelwch mewn tyrau fflatiau a mathau eraill o dai, a chynghori'r Llywodraeth ar gamau priodol a chynngor i'r cyhoedd, ynghyd â'r goblygiadau tymor hir ar gyfer y cyd-destun Cymreig<sup>24</sup>.

Mae'r digwyddiad hwn nid yn unig wedi ennyn ymateb gan y sector cyhoeddus, ond fel y nodwyd gan un o atebwyr ein grŵp ffocws, mae hefyd wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r risgiau a all ymgodi os caiff diogelwch trydanol ei esgeuluso:

*"Ers i dŵr Grenfell ddiwydd, rydym bob un wedi bod yn ceisio ystyried y mater (diogelwch trydanol)".*

### Fframweithiau Deddfuriaethol a Pholisi

Caiff diogelwch trydanol yng Nghymru ei reoleiddio a'i ddeddfu mewn amrywiol ffyrdd, yn enwedig o ran y sectorau rhent cymdeithasol a phreifat.

#### Safon Ansawdd Tai Cymru – WHQS

Mae *Deddf Tai (Cymru) 2014*<sup>25</sup> wedi cyflwyno safonau<sup>26</sup> ar gyfer awdurdodau lleol sydd wedi creu dyletswydd gofal arnynt i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu gweithredu. Yn sail i'r safonau, sy'n cynnwys ansawdd llety ar gyfer y sector cymdeithasol, mae *Safon Ansawdd Tai Cymru - WHQS* (a gyflwynwyd yn 2002<sup>27</sup>) ac sy'n adlewyrchu'r syniad y dylai aelwydydd gael y cyfle i fyw mewn anheddau o ansawdd da, sy'n ddiogel, yn sicr ac mewn cyflwr da. Mae'r *WHQS* yn pennu 'gofynion sylfaenol' ac mae Llywodraeth Cymru'n ei defnyddio i fonitro pa mor dda mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol yn gwneud cynnydd o ran cydymffurfio â'r safon. Mae data sy'n mesur a monitro cydymffurfiaid â'r *WHQS* hefyd yn cael eu casglu ar y lefel genedlaethol ar gyfer yr holl ddeiliadaethau trwy *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru* ac *Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18* sydd ar ddod.

#### System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai – HHSRS

Mae *System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai*<sup>28,29</sup> yn bodoli hefyd – cafodd ei chyflwyno trwy *Ddeddf Tai 2004* gan ddisodli'r *Safon Ffitrwydd* ar gyfer y sector tai cymdeithasol<sup>30</sup>. Defnyddir y system hon gan landlordiaid yn eu prosesau archwilio a'u harolygon o gyflwr stoc i asesu safonau eu hadeiladau preswyl a nodi p'un ai ydynt yn ddiogel neu'n beryglus i fyw ynddynt<sup>31,32,33</sup>; mae hefyd yn rhoi opsiynau gorfodi i awdurdodau lleol os bydd peryglon yn dod i'r amlwg.

Mae'r adrannau o'r system fesur sy'n berthnasol i beryglon trydanol yn cael eu crybwyll mewn perthynas â diogelu rhag damweiniau, yn cynnwys "... peryglon oherwydd sioc a llosgiadau yn ymgodi o ddod i gysylltiad â thrydan ond NID risgiau sy'n gysylltiedig â tân a achosir gan ddiffygion i'r gosodiadau trydanol, e.e. tân a achosir gan gylched fer" (tud. 49).

Ar sail y canllawiau a ddisgrifir isod, mae asesiad o beryglon offer sefydlog a systemau trydanol yn seiliedig i gychwyn ar archwiliad gweledol a gynhelir gan y landlord yn hytrach na gan drydanwr cymwysedig/peiriannydd trydanol.

#### Asesiad perygl

- “Archwiliad gweledol o'r offer sefydlog a'r system drydanol i nodi peryglon amlwg;
- Ble mae'n ymddangos bod diffygion sy'n cynyddu'r risg uwchlaw'r cyfartaledd, yna efallai bydd angen archwiliad llawn ac adroddiad prawf gan drydanwr cymwysedig/peiriannydd trydanol – a beth bynnag, gallai hyn fod yn ddymunol bob dwy flynedd o leiaf; a
- Dylid rhoi ystyriaeth i gyflwr lidiau a phlygiau cysylltiedig ar offer cludadwy wrth gynnal yr asesiad os ydynt yn cael eu darparu fel rhan o annedd rhent” (DCLG, Mai 2006: 49).

### Rhannau P ac M y Rheoliadau Adeiladu

Yn ychwanegol, mae Rhannau P ac M y Rheoliadau Adeiladu (diwygiadau 2006 a 2010) sy'n darparu'r safonau ar gyfer pob math o waith adeiladu, yn cynnwys manylebau penodol ynglŷn â diogelwch a gosodiadau trydanol. Rheolir y rhain gan awdurdodau lleol.

Mae Rhan P<sup>34</sup> yn delio'n benodol â dylunio a gosod gosodiadau trydanol mewn anheddau ac mae'n berthnasol i waith adeiladu newydd neu i newidiadau i osodiadau presennol, gyda'r nod o atal tân ac anaf, yn cynnwys siociau trydan. P'un ai fod y gwaith wedi ei wneud gan weithwyr proffesiynol neu fel eu gwaith eu hun, mae'n ofynnol i landlordiaid a pherchenogion tai brofi'n gyfreithiol bod unrhyw waith gosod trydanol yn ateb gofynion Rhan P ac mae gan awdurdodau lleol yr awdurdod i newid gosodiadau neu gael gwared â hwy os nad ydynt yn cydymffurfio<sup>35</sup>.

Yn ôl Rhan P Rheoliadau Adeiladu 2010<sup>36</sup>, rhaid i'r holl waith gosod trydanol domestig a gyflawnir mewn cartref yng Nghymru neu Loegr sicrhau:  
 “... darpariaeth resymol... wrth ddylunio a gosod gosodiadau trydanol ...i ddiogelu pobl sy'n gweithredu, cynnal neu newid y gosodiadau rhag tân neu anaf” ac “y dylai gosodiadau trydanol gael eu harchwilio a'u profi fel y bo angen ac y bo'n briodol yn ystod ac ar ddiwedd y gwaith gosod, cyn iddynt gael eu rhoi mewn gwasanaeth, er mwyn gwirio eu bod yn ddiogel i'w defnyddio, eu cynnal, a'u newid a'u bod yn cydymffurfio â Rhan P y Rheoliadau Adeiladu ac ag unrhyw Rannau perthnasol o'r Rheoliadau Adeiladu”. Ffynhonnell: Rheoliadau Adeiladu 2010, Diogelwch Trydanol – Anheddau Rhan P<sup>37</sup> (tud. 10)

Mae Rhan M yn bwysig am ei bod yn pennu'r gofynion ynglŷn â diogelwch trydanol o ran uchder allfeydd socedi, switshis ac unedau defnyddiwr<sup>38</sup>. Cadarnhaodd rhai o gyfranogwyr ein grŵp ffocws pa mor bwysig oedd cael socedi trydan ar yr uchder cywir:

**Cyfwelydd:** “Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch trydanol? Ydych chi'n poeni am rywbeth?”

**Cyfranogwr 2:** “Wel na, dim ar hyn o bryd, oherwydd dwi'n gallu plygu i lawr, ond rhywbryd mae'n debyg, pan na all rhywun wneud hynny, bydd yn wahanol. Cyhyd â'ch bod yn cael y soced hygyrch hwnnw, gallwch barhau i ddefnyddio'r soced hwnnw”. (Cyfranogwr y grŵp ffocws)

## Tai Rhent Cymdeithasol

Ar gyfer landlordiaid cymdeithasol, mae'r WHQS yn esbonio'r gofynion gorfodol y mae'n rhaid eu hateb i sicrhau bod tenantiaid yn cael y cyfle i fyw mewn anheddau o ansawdd da<sup>39</sup>. Mae Tabl 3.1 yn dangos yr adrannau sy'n gysylltiedig â thrydan.

**Tabl 3.1.** Safonau Ansawdd Tai Cymru – Gosodiadau trydanol, offer a gosodiadau gwresogi (Ffynhonnell: LIC, Gorffennaf 2008)

<p><i>“Systemau trydanol diogel a sicr – gofynion sylfaenol y WHQS” ar gyfer gosodiadau trydanol, offer a gosodiadau gwresogi”</i></p>	<p><i>Adran “Ddehongli” ar gyfer pob elfen o’r Safon i egluro pwrpas y gofynion sylfaenol (nid yw elfennau arfer da yn orfodol<sup>40</sup>)</i></p>
<p><i>“2(l) Rhaid bod y dystysgrif archwilio gwasanaeth a diogelwch nwy, tanwydd solet neu olew yn gyfredol. Rhaid i’r holl offer a gosodiadau gwresogi gael eu gwirio a’u hardystio’n ddiogel gan berson â chymwysterau priodol o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn unol â gofynion y gyfraith (Elfen gynradd<sup>41</sup>)”.</i></p>	<p><i>“2(l) Ydy’r dystysgrif archwilio gwasanaeth a diogelwch nwy, tanwydd solet neu olew yn gyfredol ac a yw’r holl offer a gosodiadau gwresogi wedi cael eu gwirio a’u hardystio’n ddiogel gan berson â chymwysterau priodol yn unol â gofynion y gyfraith (Cynradd)? Rhaid i offer a gosodiadau gwresogi nwy, tanwydd solet neu olew feddu ar dystysgrif diogelwch gyfredol a roddwyd gan berson â chymwysterau priodol. Yn ogystal, mae’r rheoliadau cyfredol yn gofyn i landlordiaid sicrhau bod offer trydan a gyflenwir gan y landlordiaid wedi’u hardystio’n ddiogel ... Mae’r rheoliadau’n cwmpasu’r holl nwyddau trydan foltedd prif gyflenwad yn cynnwys poptai, tegelli, tostwyr, blancedi trydan, peiriannau golchi, gwresogyddion troch, ac ati. Derbynnir yn gyffredinol ei bod yn arfer da i landlordiaid archwilio offer: • pan gânt eu cyflenwi’n gyntaf; • yn flynyddol; • ar ddechrau pob tenantiaeth newydd”.</i></p>
<p><i>“2(m) Rhaid i oleuadau trydan a gosodiadau pŵer gael eu gwirio a’u hardystio gan berson â chymwysterau priodol o leiaf bob 10 mlynedd fel isafswm (Elfen gynradd)”.</i></p>	<p><i>“2(m) Ydy goleuadau trydan a gosodiadau pŵer wedi cael eu gwirio a’u hardystio’n ddiogel gan berson â chymwysterau priodol (Cynradd)? Dylai goleuadau trydan, gwifrau a gosodiadau pŵer gael eu gwirio a’u hardystio’n ddiogel gan berson â chymwysterau priodol yn unol â gofynion y gyfraith”.</i></p>

Mae rhai problemau’n ymgodi wrth gymhwyso’r WHQS. Er enghraifft, mae’r safon ardystio ar gyfer goleuadau trydan a gosodiadau pŵer yn ofynnol bob 10 mlynedd, ond yn flynyddol ar gyfer cyflenwadau tanwydd eraill. Hefyd, gall y landlordiaid eu hunain gynnal archwiliad ar offer trydan; mae hyn yn golygu nad yw’r safonau’n mynnu bod person â chymwysterau priodol yn cwblhau’r archwiliadau hyn<sup>42</sup>.

Yn ddiweddar cwblhaodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynglŷn â safonau gorfodol ar gyfer gwella tai cymdeithasol presennol yn seiliedig ar y WHQS (Rhan A<sup>43</sup>), a nawr mae’n rhoi canllawiau i landlordiaid cymdeithasol i sicrhau eu bod yn dehongli, cynllunio a monitro’r WHQS yn gywir.

Cyflwynodd yr ymgynghoriad (Rhan B<sup>44</sup>) hefyd y safonau gweithredol gofynnol gorfodol o ran tai cymdeithasol ar gyfer cartrefi anghenion cyffredinol adferedig a newydd yn cynnwys y *Gofynion Ansawdd Datblygu* (DQR) newydd. Mae'r safonau DQR (fel y'u pennir yn Rhan 4 *Deddf Tai (Cymru) 2014*) yn nodi y dylai cartrefi "*fod yn ddiogel*", ac y dylent ddarparu "*allfeydd socedi trydanol digonol, cyfleus ac mewn lleoliad da*". Mae hyn yn bwysig oherwydd gynt roedd y WHQS ond yn pennu nifer y socedi pŵer mewn ceginau, ac roedd hyn yn ofyniad eilaidd, yn hytrach na chynradd. Mewn geiriau eraill, roedd yn ymwneud â chysur y preswylwyr yn hytrach na'u diogelwch<sup>45</sup>. At hynny, mae'r safonau bellach yn cynnwys lleiafswm o socedi trydanol mewn ystafelloedd eraill, ac nid dim ond yn y gegin.

### Lefelau cydymffurfio â'r WHQS

Cyflwynwyd y WHQS yn 2002 ond mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd yn heriol i rai awdurdodau lleol eu bodloni<sup>46</sup> felly mae'r targed wedi ei estyn i 2020. Erbyn Mawrth 2016<sup>47</sup>, roedd 79% wedi bodloni'r WHQS, o gymharu â 72% y flwyddyn flaenorol, sef gwelliant o 7 pwynt canran. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys methiannau derbyniol yn unig.

Roedd cyfanswm o 222,962 o anheddau awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi'u cofnodi yng Nghymru yn 2015-16. O'u cymharu ag awdurdodau lleol, mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cyflawni lefelau uwch o gydymffurfiaid (Gweler Tabl 3.2: tua 96% a 54% yn eu trefn), er bod tua chwarter o anheddau tai cymdeithasol yn 2015-16 (23.4%) wedi derbyn cydymffurfiaid dan *amodau methiannau derbyniol* (e.e. cost unioni, amseriad yr unioni, dewis y preswylwr a chyfyngiad ffisegol; gall tenant wrthod gweithiau ac mae'n rhaid iddynt lofnodi ffurflenni hawlildio<sup>48</sup>).

Mae'r ystadegau hefyd yn dangos bod 7% o anheddau awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ledled Cymru heb gydymffurfio â gofynion y WHQS ar gyfer systemau trydanol erbyn Mawrth 2016 (gweler Tabl 3.2), ac unwaith eto roedd landlordiaid cymdeithasol yn cyflawni lefelau uwch o gydymffurfiaid (99.4% o gymharu â 83.5%<sup>49</sup>). Dim ond cyfran fechan oedd wedi derbyn *cydymffurfiaid methiannau derbyniol* am systemau trydanol.

**Tabl 3.2.** % yr anheddau Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cydymffurfio â'r WHQS (yn llawn neu dan amodau methiannau derbyniol), Cymru 2015-16

	Mesur cyffredinol			Elfen systemau trydanol		
	% heb gydymffurfio	% yn cydymffurfio	% y methiannau derbyniol	% heb gydymffurfio	% yn cydymffurfio	% y methiannau derbyniol
Cyfanswm yng Nghymru	20.5	79.5	18.6	6.8	93.2	1.5
Cyfanswm yr Awdurdodau Lleol	45.9	54.1	10.6	16.5	83.5	1.6
Cyfanswm y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	4.2	95.8	23.8	0.6	99.4	1.5

*Ffynhonnell: Tabl wedi'i lunio gan yr awduron yn defnyddio data o StatsCymru (5 Hyd 2016<sup>50</sup>).*

Nid oedd *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008* yn mesur dwy elfen o ddiogelwch trydanol cynradd y WHQS<sup>51</sup> mewn perthynas â thystysgrifau nwy a thrydan dilys.

## Tai Rhent Preifat

Ar hyn o bryd, yr *HHSRS* yw'r prif offeryn rheoliadol ar gyfer safonau eiddo yng Nghymru, gan nad yw'r *WHQS* yn berthnasol i'r sector rhent preifat. Yn ychwanegol, mae *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* (adran 91) yn diffinio beth sydd yn ffit i bobl fyw trwy gyflwyno safonau eiddo gofynnol rhagnodedig y bydd rhaid i landlordiaid eu bodloni<sup>52</sup>.

Yn ogystal, fel rhan o'i chynllun *Rhentu Doeth Cymru*<sup>53</sup> a ddatblygwyd i weithredu Rhan 1 *Deddf Tai (Cymru) 2014*, ac sy'n anelu at wella arferion yn y sector rhent preifat, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Cod Ymarfer ("y Cod" Hyd 2015)* ar gyfer landlordiaid ac asiantau trwyddedig ynglŷn â'r safonau ar gyfer gosod a rheoli eiddo rhent. Mae'n rhaid i unrhyw un sydd wedi derbyn trwydded gydymffurfio â'r *Cod*<sup>54</sup>. Mae Tabl 3.3 yn dangos yr elfennau yn y *Cod* sy'n cyfeirio'n benodol at ddiogelwch trydanol.

**Tabl 3.3.** *Cod Ymarfer ar gyfer Landlordiaid ac Asiantau*

Cyn dechrau tenantiaeth:	Mae'n ofynnol bod y tenant yn derbyn, mewn ysgrifen, a chyn dechrau'r denantiaeth, " <i>Tystysgrif Diogelwch Nwy Landlordiaid, wedi'i dyddio o fewn y 12 mis diwethaf, os oes unrhyw gyfarpar nwy yn yr eiddo.</i> " (tud. 9)
Yn ystod y denantiaeth:	<p>4.10 " Rhaid sicrhau bod yr eiddo'n cael ei gadw mewn cyflwr diogel gan sicrhau nad oes unrhyw risg annerbyniol i iechyd y tenantiaid. Os bydd awdurdod lleol yn mynnu gwelliannau dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai ("<i>HHSRS</i>"), rhaid gweithredu'n unol â'r rhain" (tud. 13)<sup>55</sup></p> <p>4.11 Mae'n rhaid bod gosodiadau cysylltiedig â thrydan "yn cael eu cadw mewn cyflwr gweithio cywir" (tud. 13)<sup>56</sup></p> <p>4.12 " Rhaid bod y weirio trydanol yn gweithio'n iawn a'i fod mewn cyflwr diogel. Rhaid sicrhau nad oes unrhyw osodiadau a ffitiadau trydanol sydd wedi torri, wedi cracio neu sy'n ddiffygiol, a rhaid eu bod wedi'u gosod yn gywir ac yn ddiogel. Rhaid cyflawni gwaith trydanol yn unol â rhan P y Rheoliadau Adeiladu" (tud. 13)<sup>57</sup></p> <p>4.13 "Rhaid i'r holl offer trydan a ddarperir fod mewn cyflwr diogel" (tud. 13)<sup>58</sup></p>

Yng Nghymru yn gyffredinol, mae'r safonau yn y *Cod Ymarfer* ar gyfer landlordiaid ac asiantau trwyddedig yn y sector rhent preifat sy'n ymwneud â safonau ar gyfer gosod a rheoli eiddo rhent yn golygu nad oes rhaid iddynt roi tystysgrif diogelwch trydanol gyfredol i denantiaid cyn iddynt symud i mewn. Mae hyn yn wahanol i'r gofynion ar gyfer cyfarpar nwy. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu, mae Llywodraeth Cymru i fod i gyflwyno mesurau trwy *Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016* a allai ddeddfu ar wiriadau diogelwch trydanol gorfodol yng Nghymru i bobl sy'n byw yn y sector rhent preifat a'r sector rhent cymdeithasol.

Mewn perthynas â chyflwr eiddo a gosodiadau trydanol, mae'r *Cod Ymarfer* yn nodi: "*y dylai gwiriad ar osodiad trydanol...gael ei gynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan drydanwr cymwys, a dylai'r canlyniadau...gael eu cofnodi ar ffurf Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol*"; fodd bynnag, mae hyn wedi ei gynnwys yn "*Arfer gorau*" yn hytrach nag fel arfer sy'n ofynnol yn gyfreithiol<sup>59</sup>.

At hynny, nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol i landlordiaid preifat gynnal prawf PAT ar offer cludadwy yng Nghymru<sup>60</sup>, er mai dyma yw'r achos yn yr Alban er enghraifft<sup>61</sup>.

Mewn arolwg ar-lein diweddar gan *Shelter Cymru* (2015)<sup>62</sup> ymhlith 602 o denantiaid sector preifat (yn cynnwys pobl 55 oed neu fwy), amlygwyd rhai materion diogelwch yn y cartref, gyda rhai tenantiaid yn cael problemau difrifol a allai gael eu hatal pe byddai mesurau diogelwch yn eu lle. O blith y cyfranogwyr hyn, dywedodd 17% eu bod wedi cael problem gyda pherygl trydanol yn eu llety. Dywedodd llai nag un o bob tri eu bod yn meddu ar ddiffoddwr tân neu flanced dân. Mae'r casgliadau'n cefnogi'r argymhellion am ddeddfwriaeth a gofynion cydymffurfio ychwanegol ar gyfer landlordiaid preifat i sicrhau gwelliant mewn diogelwch trydanol.

Yn ystod cyfweiliad gydag un rhanddeiliad sy'n gweithio yn y gwasanaeth tân ac achub, nodwyd y gall risgiau fod yn uwch ymhlith y poblogaethau tai mwy symudol fel y rhai sydd yn y sector rhent preifat (e.e. myfyrwyr, teuluoedd ifanc):

*“Ei (y sector rhent preifat) natur symudol yw'r mater, yn sylfaenol. Mwyaf symudol yw'r unigolyn, mwyaf yw'r risg sydd ynghlwm ar sail ein harsylwadau; y boblogaeth fyfyrwyr, er enghraifft, a theuluoedd ifanc sy'n symud o un eiddo i'r llall”.*

### Tai perchen-feddiannwyr

Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn yng Nghymru yn byw yn eu cartrefi eu hunain fel perchen-feddiannwyr. Mae hyn yn golygu na fydd eu heiddo'n cael budd o fonitro neu o gymhwysu'r WHQS neu'r HHSRS, er y bydd *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008* ac *Arolwg Ansawdd Tai yng Nghymru 2017-18* sydd ar ddod yn caniatáu asesiad o bob math o ddeiliadaeth at ddibenion cymharu.

Dangosodd *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008* a fesurodd yr HHSRS, bod anheddau perchen-feddiannwyr yn fwy tebygol na deiliadaethau eraill o feddu ar y perygl Categori 1 mwyaf difrifol, ac mae'r rhain yn cynnwys perygl trydanol<sup>63</sup>.

Mae tystiolaeth ansoddol o'n cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid wedi amlygu nifer o ffactorau sy'n bwysig o ran ceisio mynd i'r afael â'r risgiau o achosion trydanol ymhlith perchenogion tai hŷn, yn cynnwys costau atgyweirio a gwaith cynnal a chadw, ac agweddau ac ymddygiad tuag at ddiogelwch trydanol.

Nododd un Swyddog Technegol y gall cost gwaith trydanol fod yn waharddol, ac yn aml gall arwain at ddarganfod problemau mwy cymhleth gyda chylchedau trydanol:

*“... ond y gost sy'n achosi problemau a dyna beth sy'n digwydd mewn hen eiddo, rydych yn nodi'r problemau, dyna'r rhan hawdd, y gamp yw gwneud y gwaith ... mae fel agor can o fwydod, yn enwedig yng nghartrefi pobl hŷn, oherwydd ar hyd eu hoes mae hyn wedi mynd i lawr y rhestr flaenoriaethau, ac yn hollol ddealladwy. Roedd llawer o bethau'n bwysicach yn ystod eu terfynau amser ac mae weirio wedi cael ei symud i lawr y rhestr flaenoriaethau, felly rydych yn dod ar draws llawer o faterion yno.”*

Yn ystod cyfweiliad gyda rhanddeiliad tân a diogelwch cafodd yr un math o her ei hamlygu pan fyddant yn gorfod cyflawni gwasanaethau ar y safle:

*“... ni allwn ymyrryd heblaw am mewn materion trydanol ar gyfer darnau penodol o offer ac os yw'r broblem yn un ehangach, efallai'n ymwneud ag ailweirio ac adeiledd y tŷ ei hun, nid oes unrhyw fodd i ni newid hynny os nad oes gan y perchennog neu'r meddiannydd yr arian i'w wneud. Felly, mae'n dibynnu ar p'un ai fyddai Llywodraeth Cymru'n cefnogi hynny, ond mae hyn wedi bod yn anodd i ni”.*



Pan fyddant yn wynebu costau gwaharddol, mae rhanddeiliaid yn nodi y bydd rhai cleientiaid hŷn naill ai'n gwneud y gwaith eu hun neu'n gofyn i drydanwyr anghymwys ei wneud.

*"Weithiau maent yn ei wneud eu hun...byddant yn gofyn i ryw foi yn y dafarn ei wneud am bum punt neu efallai daflu 20 punt a does ganddyn nhw ddim syniad beth maen nhw'n ei wneud. Rydych yn gweld y math o beth ble mae wedi cael ei newid gan rywun sydd heb ei achredu."*

Mae agweddau tuag at ddiogelwch offer trydan hefyd yn awgrymu bod lle i godi ymwybyddiaeth ymhlith perchenogion tai hŷn ynglŷn â'r peryglon sydd ynghlwm wrth gadw hen offer:

*"... rydym yn byw mewn cymdeithas o ddefnyddwyr gwastraffus, ond bydd person hŷn wedi cadw nwyddau trydan oherwydd eu bod yn disgwyl iddynt bara'n hirach, felly mae'n ymwneud â helpu gyda'r ymwybyddiaeth o'r angen am gynnal yr eitemau hynny. Pethau fel rhewgell-rewgistiau, peiriannau sychu dillad, i sicrhau bod yna ymwybyddiaeth o sut i'w cynnal yn ddiogel. Ond mae angen edrych ar feddylfryd y genhedlaeth hŷn hefyd ynglŷn â phethau fel gorlwytho socedi; o brofiad personol, mae fy nheulu'n ddigon hapus i ailweirio plwg neu dorri plwg wedi'i selio ar ben gwifren drydanol a rhoi plwg newydd arni, oherwydd mae hyn yn fater o genhedlaeth. Mae pobl yn gwneud y gwaith eu hun hefyd".*

Gallai ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd a ddarlledir drwy brif sianeli'r cyfryngau helpu i hybu ymwybyddiaeth o'r peryglon a all ymgodi wrth wneud eu gwaith trydanol eu hun ac wrth ddiwynnu ar offer trydan wedi dyddio yn y cartref.

## Cartrefi Gofal

Yn 2015, roedd 613,478 o bobl 65 oed neu hŷn yng Nghymru ac roedd tua 11,052 yn byw mewn cartrefi gofal<sup>6465</sup>.

Mae *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* yn sicrhau bod y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau cartrefi gofal fel llety ar gyfer grwpiau agored i niwed, yn cynnwys pobl hŷn, yn cael eu rheoleiddio a'u cofrestru'r (tud. 120)<sup>66</sup>. Mae hyn yn golygu bod perchenogion cartrefi gofal yn gyfrifol am sicrhau bod y cartrefi maent yn eu gweithredu yn ddiogel ac yn sicr.

Mae'r *Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol* ar gyfer gwasanaethau i oedolion yng Nghymru<sup>67</sup> yn helpu i benderfynu p'un ai fod cartrefi gofal yn darparu gofal digonol ac yn cwrdd ag anghenion sylfaenol y preswylwyr. Mae'r safonau'n cael eu monitro gan *Yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol – CSSIW* ac maent yn cynnwys diogelwch. Yn 2004, er mwyn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn,<sup>68</sup> roedd rhaid i'r dodrefn a'r ffitiadau gynnwys o leiaf dau soced trydan dwbl hygyrch i bob preswylwr. Mae'r safonau hyn hefyd yn cynnwys manylebau yn ymwneud â sicrhau diogelwch systemau a chyfarpar trydanol ar gyfer preswylwyr a staff mewn lleoliad cartref gofal:

**Safon 18: Arferion Gweithio Diogel** “*cymryd pob cam rhesymol i warchod a hybu iechyd, diogelwch a lles y defnyddwyr gwasanaeth a'r staff*” (18.1, tud. 19) yn cynnwys “*cynnal systemau trydanol ac offer trydan*” (18.3, tud. 19) a “*chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, yn cynnwys Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989*” (18.4, tud. 18).

### Diogelwch offer trydan mewn cartrefi gofal

Mae'r *CSSIW*<sup>69</sup> hefyd yn cyfeirio at ganllawiau a ddarperir gan *Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – HSE* ynglŷn â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer offer trydan mewn amgylcheddau fel cartrefi gofal<sup>70</sup>. Mae'r adrannau yn y canllawiau sy'n ymwneud yn benodol ag offer trydan wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i reolwyr neu berchenogion cartrefi gofal sicrhau eu bod yn ateb y gofyniad cyfreithiol bod arbenigwr yn archwilio a phrofi gosodiadau trydanol bob pum mlynedd neu lai yn dibynnu ar yr asesiad risg a gynhaliwyd gan y gweithiwr proffesiynol. Os yw staff cartrefi gofal yn cymryd rhan mewn gwiriadau gweledol ar osodiadau trydanol, mae'n rhaid iddynt gael eu hyfforddi i wneud felly.

Ar gyfer offer trydan cludadwy (e.e. tegelli, tostwyr), nid yw profi'n flynyddol yn ofynnol yn gyfreithiol felly gall rheolwyr neu berchenogion cartrefi gofal benderfynu ar amlder a lefel y gwaith cynnal a chadw, ac yn gyffredinol ystyrir bod archwiliad gweledol yn ddigonol, gyda rhai eithriadau ar gyfer profion PAT.

## Diogelwch tân a thrydan

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd yn darparu canllawiau ynglŷn ag atal tân ar gyfer y rhai hynny sy'n gyfrifol am adeiladau cartrefi gofal (e.e. asesiadau risg diogelwch tân; nodi achosion a ffynonellau tân posibl fel pethau a allai gynnu tân neu ddeunyddiau fflamadwy; nodi pobl mewn perygl). Dangosir yr adrannau perthnasol yn Atodiad 2.

Mae'r canllawiau'n darparu cyngor ynglŷn â '*mesurau rheoli syml*' i leihau peryglon tân, ond nid yw'r rhain yn cynnwys awgrymiadau sy'n ymwneud yn benodol â diogelwch trydanol.

Ers Awst 2009, mae protocol wedi bodoli rhwng *CSSIW* ac *Awdurdodau Tân ac Achub Cymru*<sup>71</sup>, sy'n egluro'u cyfrifoldebau priodol (e.e. ynglŷn â rhannu gwybodaeth, archwiliadau diogelwch tân a chydymffurfio â rheoliadau diogelwch, gan adrodd i *CSSIW*), a ffyrdd o gydweithredu ar ddiogelwch tân mewn cartrefi gofal. Un o'r agweddau pwysig yn y protocol hwn yw ei fod yn rhoi'r hawl i staff a phreswylwyr ofyn am adolygiad os ydynt yn anfodlon ar y mesurau diogelwch tân yn y cartref gofal dan sylw.

Yn fwy diweddar, mae canllawiau ychwanegol ynglŷn â diogelwch tân mewn cartrefi gofal<sup>72</sup> yn darparu eglurhad ynglŷn ag asesiadau risg tân mewn cartrefi gofal (e.e. gwacáu'r adeiladau yn ystod tân). Mae rheolwr cofrestredig y cartref gofal yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant priodol, bod asesiad risg yn cael ei gynnal a bod y cartref gofal yn bodloni'r safonau diogelwch tân a mwg (e.e. gosod a chynnal canfodyddion tân a mwg) a symud preswylwyr allan o'r cartref yn ddiogel mewn argyfwng.

Nid yw'r protocol na'r canllawiau ychwanegol yn cyfeirio'n benodol at faterion yn ymwneud â diogelwch trydanol.

I grynhoi, perchennog a rheolwr y cartref gofal sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr amgylchedd cartref gofal ble mae preswylwyr a staff yn byw ac yn gweithio yn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol; er enghraifft, ystafelloedd preifat gyda socedi trydan digonol am resymau diogelwch a chysur; cydymffurfio â gofynion y gwasanaeth tân lleol, bod yn ymwybodol o drydan yn y rheoliadau gwaith; sicrhau bod gosodiadau trydanol sefydlog ac offer cludadwy yn cael eu harchwilio a'u cynnal. Gall cydymffurfiaid gael ei fonitro gan y *CSSIW*.

# Diogelwch Yn Y Cartref Yng Nghymru

---

## 5. Diogelwch Yn Y Cartref Yng Nghymru

### Peryglon Trydanol yn y Cartref

**Cyfranogwr grŵp ffocws:** “Gwnes i rywbeth dwl y diwrnod o’r blaen. Roedd gen i fwrdd torri gyda phryfed pren ynddo a meddyliais, ‘Mi wn i beth wna i. Gallaf ei roi yn y ficrodon’. Felly, rhoddes i e yn y ficrodon, es i allan ac anghofio popeth amdano. Y funud nesaf, roedd y gegin yn llawn mwg, roedd y ficrodon ar dân... Ond fe laddodd y pryfed pren beth bynnag!”

**Cyfwelydd:** “Ddaeth y Gwasanaeth Tân?”

**Cyfranogwr grŵp ffocws:** “Na, wnaethon nhw ddim.”

**Cyfwelydd:** “Wnaethoch chi ddim eu ffonio?”

**Cyfranogwr grŵp ffocws:** “Na, nes i dynnu’r plwg, defnyddio tywel mawr a’i gario allan... nes i chwerrthin. Rydw i’n gwneud y pethau hyn o bryd i’w gilydd ac yn anghofio’n llwyr amdanyn nhw”.

Mae’r rhan fwyaf o bobl hŷn yng Nghymru yn llai tebygol o symud tŷ wrth iddynt fynd yn hŷn, er bod rhai yn fodlon gwneud hyn gyda’r cymorth priodol<sup>73</sup>. Mae materion cynnal a chadw yn y cartref yn aml ymhlith y rhesymau allweddol pam mae pobl hŷn yn fodlon ystyried symud. Ar gyfer yn rhai sy’n byw gartref gyda dementia, bydd aros mewn amgylchedd cyfarwydd yn bwysig gan y gallai’r profiad o symud eu drysu, ac mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod byw gartref yn cael ei werthfawrogi gan ofalwyr a’r rhai hynny sydd â dementia fel ei gilydd<sup>74</sup> (Cymdeithas Alzheimer 2011<sup>75</sup>).

Gall cefnogi pobl hŷn i fyw mewn amgylchedd cartref diogel a sicr fod yn llai costus yn ariannol i gymdeithas na’r dewisiadau eraill sef lleoliadau preswyl neu nyrsio. Yn ôl amcangyfrifon Cymdeithas Alzheimer (2014)<sup>76</sup> sy’n cynnwys costau gofal iechyd, cymdeithasol a di-dâl, gallai helpu pobl sydd â dementia i aros yn eu cymuned (cost gyfartalog y person sydd â dementia £29,298 y flwyddyn) fod yn fwy cost effeithiol na bod mewn lleoliad preswyl (£36,738) (2014: tabl D, tud. xvi).

Ni waeth beth yw eu galluoedd gwybyddol neu gorfforol, mae byw gartref yn ddiweddarach mewn bywyd yn dod yn beth normal ar gyfer pobl hen a hen iawn heddiw, felly mae’n bwysig cydnabod bod rhaid i’r amgylcheddau hyn fod mor ddiogel a sicr â phosibl.

## Risgiau Cynyddol Wrth i Ni Fynd yn Hŷn

Er y dylem ddathlu'r ffaith fod mwy ohonom yn byw'n hirach nag erioed o'r blaen yng Nghymru, yn achos pobl hŷn yn benodol, mae rhai ffactorau a allai gyfrannu at debygrwydd cynyddol o beryglon trydanol difrifol yn y cartref.

- **Mwy o bobl hŷn ac eiddilwch**

Mae ein poblogaeth yn heneiddio<sup>77</sup> felly rydym yn gwybod y bydd mwy o bobl "hen" a "hen iawn" yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl dros 60 oed yn fwyfwy tebygol o brofi anaf difrifol neu drawma mawr<sup>78</sup>, a bod y cyfraddau marwolaethau yn eu plith yn uwch. Er enghraifft, maent yn fwy tebygol o farw yn y gaeaf na grwpiau oedran eraill; yng Nghymru a Lloegr yn 2015, digwyddodd dros hanner (56%) y marwolaethau cysylltiedig ag oerfel i bobl 85 oed neu fwy ac ychydig dros chwarter (27%) i bobl rhwng 75-84 oed<sup>79</sup>.

- **Costau ariannol peryglon trydanol**

Mae *Arolygon Eiddo Byw yng Nghymru* 2004 a 2008 a ddarparodd ddata i fesur yr *HHSRS*<sup>80</sup> yn asesu 29 math o berygl mewn tai wedi'u hailgrwpio fel pedwar categori o beryglon, ac un o'r rhain yw *Diogelu rhag Damweiniau* yn cynnwys cwmpadau, sioc drydanol, llosgiadau a sgaldiadau a gwrthdrawiadau cysylltiedig ag adeiladau. Fodd bynnag, mae'n debyg bod yr *Arolwg Byw yng Nghymru* wedi amcangyfrif nifer y peryglon yn y stoc dai yng Nghymru yn rhy isel, gan iddo asesu 16 yn unig o'r peryglon *HHSRS*.

Mae *Arolygon Tai ac Eiddo Byw yng Nghymru* 2008 yn rhoi dirnadaeth ar y tebygrwydd o beryglon yn y cartref, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â diogelwch tân a thrydanol, ac ystyrir bod y ddau hyn ymhlith y peryglon mwyaf difrifol (Categori 1). Er bod 71% o'r holl anheddau heb unrhyw beryglon Categori 1, ymhlith y rhai ble roedd rhai, anheddau hŷn oedd y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf (StatsCymru, Rhag 2010; Tabl 2<sup>81</sup>). Roedd hyn yn wir hefyd am anheddau mewn ardaloedd gwledig (45% o gymharu â 24% mewn ardaloedd trefol). Nid oedd nifer y peryglon Categori 1 mewn annedd yn amrywio yn ôl oedran person cyswllt y cartref.

O blith yr holl anheddau y nodwyd bod ynddynt berygl Categori 1, roedd gan tua 7,000 berygl tân (0.5%), o gymharu â thua 168,000 (13.3%) â pherygl syrthio ar risiau. Roedd gan lai nag 1 y cant (0.2%) berygl diogelwch trydanol o gymharu â dros un o bob deg (11%) gyda pherygl oerfel gormodol (StatsCymru, 2010: Tabl 4).

Mae'r data hyn yn awgrymu mai'r perygl mwyaf mewn anheddau yw'r perygl o syrthio yn hytrach nag o brofi tân, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â diogelwch trydanol yn effeithio ar lai nag 1% o'r holl anheddau. Fodd bynnag, o ran costau ariannol, y ddau berygl hyn yw'r mwyaf costus i'w hunioni o'u hamcangyfrif fesul annedd – £10,400 am beryglon tân a £22,500 am beryglon trydanol (StatsCymru, 2010: Tablau 6 a 7).

- **Darpariaethau diogelwch tân, deiliadaeth ac oed eiddo**

Wrth i ni fynd yn hŷn, rydym yn fwy tebygol o fod yn byw mewn aelwydydd perchen-feddianwyr. Yng Nghymru, mae amcangyfrifon mewn arolwg diweddar (2012-15) yn dangos bod dros 80% o bobl 60-84 oed yn byw mewn cartrefi perchen-feddianwyr o gymharu â thua 55-65% o bobl 30-39 oed<sup>82</sup>.

Er nad yw'n hawdd cael hyd i ddata diweddar ynglŷn â'r dyddiad adeiladu cyfartalog fesul deiliadaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, rydym yn gwybod bod tua chwarter o'r eiddo domestig wedi cael ei adeiladu cyn 1900, o gymharu â thua un o bob chwech yn Lloegr<sup>83</sup> (GovUK, 2016). Bydd y math hwn o eiddo yn

llai tebygol o feddu ar nodweddion sy'n gwarchod rhag peryglon trydanol. Yn ôl astudiaeth flaenorol a ddefnyddiodd ddata o *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru* 2004 ac a ganolbwyntiodd ar sampl gynrychiolaidd o bobl hŷn 65+ oed yn byw yng Nghymru, roedd tua 40% yn byw mewn anheddau a adeiladwyd cyn diwedd 1945. O blith y rhain, roedd 25% wedi eu hadeiladu cyn 1918 felly ni fyddent wedi cael budd o'r gwelliannau i'r stoc dai a ddilynodd<sup>84</sup>.

Mae eiddo mewn ardaloedd gwledig yn dueddol o fod yn hŷn, ac mae poblogaeth wledig Cymru'n heneiddio'n fwy cyflym nag mewn ardaloedd trefol<sup>85</sup>. Er nad oes gennym unrhyw ddata ystadegol ar hyn o bryd i gadarnhau hyn, mae hyn yn awgrymu bod pobl hŷn mewn poblogaethau gwledig yn llai tebygol o fod yn byw mewn eiddo sydd wedi'i foderneiddio.

- **Diogelwch tân yn y cartref**

Daw'r data diweddaraf ar gyflwr tai yng Nghymru, sy'n darparu gwybodaeth am ddeiliadaeth, oedran a diogelwch tân, o *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru*<sup>86</sup> 2008 ac maent yn ategu'r pryderon ynglŷn â'r diffyg mesurau diogelwch tân digonol yng nghartrefi pobl hŷn<sup>87</sup>. Holodd yr arolwg ynglŷn â mesurau atal tân, a chafwyd mai'r mathau mwyaf cyffredin o offer diogelwch tân a ddefnyddiwyd oedd larymau mwg, ffenestri sy'n agor yn llydan, diffoddwyr tân a blancedi tân (2009: Siart 15.8, tud. 113). Ond cartrefi gyda phobl hŷn (60+) (2009: Siart 15.9, tud. 113), a phobl mewn aelwydydd sy'n cynnwys pensiynwyr yn unig (Siart 15.10), oedd y lleiaf tebygol o feddu ar unrhyw un o'r gosodiadau ataliol hyn yn y cartref.

Dangosodd hefyd bod pobl 60 oed a throsodd yn llai tebygol o feddu ar larwm tân wedi'i bweru gan y prif gyflenwad (24% o gymharu â 33% yn y grŵp oedran 16-39 er enghraifft) (StatsCymru, 2009: Siart 15.3, tud. 115) ac, o gymharu â deiliadaethau eraill, dim ond 20% o berchen-feddianwyr (heb ystyried oedran) oedd yn meddu ar larwm mwg wedi'i bweru o'r prif gyflenwad, gyda chyfrannau llawer uwch yn y sectorau tai cymdeithasol a rhent preifat. I grynhoi: "... roedd cartrefi gydag atebwyr hŷn yn llai tebygol o feddu ar offer diogelwch tân" (StatsCymru, 2008: 114).

Fodd bynnag, mae data mwy diweddar yn *Arolwg Cenedlaethol Cymru* yn awgrymu bod cynnydd wedi'i wneud wrth sicrhau offer diogelwch tân mewn perthynas â larymau mwg. Er enghraifft, yn 2013-14<sup>88</sup> ar gyfer aelwydydd gyda phobl 60 oed neu fwy, nid oedd gan 7% larwm mwg yn eu cartref neu roedd ganddynt un ond nid oedd yn gweithio (5% heb un a 2% gydag un o leiaf ond heb fod yn gweithio). Mae'r ffigurau'n uwch wrth edrych ar y mathau o aelwyd: mewn 11% o'r aelwydydd ble roedd y meddiannydd yn bensiynwr sengl heb blant nid oedd larymau mwg neu rai oedd yn gweithio.

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod aelwydydd gyda phobl hŷn yn llai tebygol o fod yn byw mewn llety gyda mesurau diogelwch tân digonol o gymharu â grwpiau oedran eraill<sup>89</sup>.

Bydd gwybodaeth fwy cyfredol am ddiogelwch trydanol y stoc dai bresennol ar gael pan fydd *Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18* yn cael ei gwblhau dros y misoedd nesaf fel rhan o *Raglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai Llywodraeth Cymru*<sup>90</sup>. Bydd yr arolygon hyn yn cynnwys archwiliad ffisegol o tua 2,500 o gartrefi yng Nghymru a byddant yn darparu manylion yn ymwneud â chyflwr systemau trydanol yn y cartref.

**I grynhoi: Er nad yw'n ymddangos bod yna gysylltiad rhwng lefelau peryglon mewn anheddau yng Nghymru ac oedran atebwyr yr aelwyd, a bod lefelau diogelwch trydanol a pheryglon tân bob un yn is na mathau eraill o beryglon, y rhain yw'r mwyaf costus i'w hunioni o bell ffordd ar sail cyfartaledd fesul annedd. At hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu mai pobl hŷn sy'n meddu ar y gyfran leiaf o fesurau diogelwch tân yn eu cartrefi.**

- **Dull o fyw, adnoddau ac amgylchiadau**

Yn aml, mae ein cartrefi'n ffocws gweithgareddau cymdeithasol a chysylltu ag eraill, ond os yw'r adnoddau ariannol yn mynd yn fwy cyfyngedig yn ddiweddarach mewn bywyd, gall ddod yn fwy anodd cadw cartref yn gynnes, a gall hyn fod yn arf ataliol yn erbyn gwahodd pobl i mewn<sup>91</sup>; os yw unigedd cymdeithasol neu unigrwydd yn dilyn, gall hyn gynyddu'r risgiau o beryglon trydanol y byddai teulu, ffrindiau neu ddarparwyr gwasanaeth wedi sylwi arnynt fel arall.

Wrth heneiddio, bydd amgylchiadau ariannol yn newid, yn enwedig ar gyfer pobl mewn grwpiau economaidd gymdeithasol mwy agored i niwed, neu ble mae amgylchiadau eu teulu'n newid, drwy weddwod er enghraifft. Mae hyn yn golygu y gall y gost o gynnal y cartref, yn cynnwys cynnal offer trydan, fynd yn fwy heriol, a gall olygu bod pobl hŷn yn dibynnu ar offer trydan anniogel a darfodedig y maent yn eu hystyried yn ddibynnol, yn gwneud "ei gwaith eu hun yn y cartref" i arbed costau, neu nad ydynt mewn sefyllfa i ddelio ag anghenion diogelwch trydanol.

Mae'r rhanddeiliaid allweddol yng *Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru* yn cydnabod y materion hyn a'u goblygiadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau:

*"... rydym yn byw mewn cymdeithas o ddefnyddwyr gwastraffus, ond bydd person hŷn wedi cadw nwyddau trydan oherwydd eu bod yn disgwyl iddynt bara'n hirach. Felly mae angen datblygu'r ymwybyddiaeth o'r angen am gynnal yr eitemau hynny, pethau fel rhewgell-rewgystiau, peiriannau sychu dillad, i sicrhau bod yna ymwybyddiaeth o sut i'w cynnal yn ddiogel, ond mae angen edrych ar feddylfryd y genhedlaeth hŷn hefyd ynglŷn â phethau fel gorlwytho socedi .... bod yn hapus i ailweirio plwg neu dorri plwg wedi'i selio ar ben gwifren drydanol a rhoi plwg newydd arni ..... mae hyn yn fater o genhedlaeth".*

*"..... efallai bod y bobl hŷn yn byw mewn stoc dai hŷn .... ac rydym wedi gweld llawer o bobl mewn tloidi tanwydd, mae'n amlwg felly bod problem am nad ydynt yn gallu talu'r biliau. Ac mae hyn yn golygu na allant gynnal eu cartrefi, ac efallai maent yn defnyddio offer hŷn, neu fod angen ailweirio'r tŷ. Mae'n rhywbeth nad yw pobl hŷn eisiau gwario'u harian haeddiannol arno."*

Mae tystiolaeth ansoddol mewn sgwrs rhwng aelodau un o'n grwpiau ffocws yn awgrymu y gallai pobl hŷn barhau i fod o'r farn bod offer trydan hŷn yn fwy dibynadwy:

**Cyfranogwr 1:** *"Does gen i ddim cymaint o ffydd mewn offer modern, ag yn yr hen rai".*

**Cyfranogwr 3:** *"Ie, ond mae'r tegelli newydd yn llawer mwy effeithlon. Dwyt ti ddim yn defnyddio gymaint o drydan".*

**Cyfranogwr 1:** *"Dwi ddim yn defnyddio llawer o drydan gyda fy hen degell, oherwydd rwy'n defnyddio cymaint o ddŵr ag sydd angen arna i".*

**Cyfranogwr 2:** *"Dwi ddim yn meddwl bod offer modern wedi'u gwneud i bara".*

**Cyfwelydd:** *"Felly, rydych yn fwy tebygol o gadw rhywbeth yn hirach?"*

**Cyfranogwr 1:** *"O ydw".*

**Y cyfwelydd i holl aelodau'r grŵp ffocws:** *"Ydych chi'n cytuno?"*

**Yr holl gyfranogwyr:** *"Ydyn".*

**Cyfranogwr 4:** *"Cadw pethau nes iddyn nhw stopio!"*

**Cyfranogwr 2:** *"Ie wir, hollol iawn".*



Dyweddodd rhai o'n darparwyr gwasanaeth sy'n gweithio "ar y safle", ac yn wynebu realtioedd offer a gosodiadau trydanol yng nghartrefi pobl hŷn, bod nodi'r angen am welliannau i osodiadau trydanol yn un rhan yn unig o'r gwaith y mae angen ei wneud; yr her wedyn yw cael y cyllid i wneud yr hyn sydd yn aml yn newidiadau neu osodiadau eithaf cymhleth:

*"Mae rhai ohonom yn gosod cawodydd, gwaith trydanol sy'n gorfod cael ei ychwanegu at weirio anghywir, does dim byd tebyg i switshis triphlyg ac nid yw'r cyllidwyr yn cwmpasu hynny. Mae'r grant wedi'i neilltuo ar gyfer gwneud pethau penodol ac wrth gwrs mae'r pethau ychwanegol mae angen i chi eu gwneud er mwyn sicrhau bod y gwaith yn ddiogel ac yn sicr, yn gost ac yn waith ychwanegol ac nid yw'r arian grant ar gael i wneud hynny".*

- **Cadw'n gynnes yn y cartref**

Gall tlodi tanwydd olygu bod pobl yn defnyddio dulliau rhatach o wresogi fel gwresogyddion lle trydanol sydd â hanes gwael o ran diogelwch, ac sy'n enwog am fod yn un o'r pum achos mwyaf cyffredin o danau trydanol mewn cartrefi yn y DU<sup>92</sup>.

Mae tlodi tanwydd a'i risgiau i iechyd, a lles cymdeithasol ac economaidd wedi bod ar agenda Llywodraeth Cymru ers bron degawd<sup>93</sup> ac mae'n cefnogi aelwydydd dan y fenter "*Cartrefi Cynnes*", yn cynnwys y cynlluniau *Nyth* ac *Arbed*<sup>94</sup>. Yn ôl *Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008*, ymhlith aelwydydd tlawd o ran tanwydd, ac eithrio'r ifanc iawn (16-24), mae tlodi tanwydd yn cynyddu gydag oedran; er enghraifft, "*Mae pobl dros 85 oed yn arbennig o dueddol i fod yn dlawd o ran tanwydd gyda 50% o'r grŵp hwn yn dlawd o ran tanwydd, a ddilynir yn agos gan aelwydydd ble mae person cyswllt y cartref rhwng 75-84 oed neu 16-24 oed*" (BRE, 2010: 13).

Er mai dim ond 19% o aelwydydd yng Nghymru<sup>95</sup> sydd heb eu cysylltu â phrif gyflenwad nwy (maent "tu allan i'r grid") ac maent yn llai dibynnol ar drydan nag mewn ardaloedd gwledig neu drefol eraill ym Mhrydain Fawr, rydym yn gwybod bod pobl hŷn a'r rhai sy'n byw ar eu pen eu hun yn llai tebygol yn gyffredinol o fod "o fewn y grid" ar gyfer cyflenwad nwy<sup>96</sup>. Yn yr un modd, er mai dim ond cyfran fechan o bobl yng Nghymru sy'n dal i fyw mewn cartrefi heb wres canolog (1.8%)<sup>97</sup>, y grwpiau oedran hŷn yw'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf; er enghraifft, mae 3.3% o bobl 85 oed neu fwy yn byw heb wres canolog, o gymharu ag ychydig dan 2% ar gyfer pobl rhwng 45-49 oed a llai nag 1% o blant ifanc rhwng 5-9 oed. Mae hyn yn awgrymu y bydd y bobl hynaf oll yn dibynnu ar ffurfiau eraill o wresogi a all achosi mwy o risgiau diogelwch.

- **Diogelwch yn y cartref a byw gyda dementia**

Bydd y lefelau dementia yn cynyddu wrth i'n poblogaeth heneiddio. Mae'r tebygrwydd o ddiodef o ddementia'n cynyddu wrth i ni fynd yn hŷn, a bydd menywod yn cael eu heffeithio'n fwy unwaith y byddant yn cyrraedd naw deg neu fwy<sup>98</sup>. Gall y newidiadau fel colli cof, dryswch ac anawsterau ar y golwg a all fynd law yn llaw â dementia greu risgiau posibl wrth wneud tasgau dyddiol fel coginio, yn enwedig os yw pobl yn byw ar eu pen eu hun gyda'r cyflwr hwn. Fel y gwelwyd eisoes yn yr Adroddiad hwn, mae pobl yn eu 80au a thu hwnt yn fwy tebygol o ddiodef anafiadau mewn tanau a digwyddiadau trydanol yn y cartref.

Roedd yn amlwg iawn yn ystod un o'n trafodaethau grŵp ffocws bod colli cof yn gallu newid amgylcheddau cartref oedd gynt yn ddiogel yn rhai ble mae tebygrwydd cynyddol o berygl:

**Cyfranogwr 1:** *“Y cof yw'r broblem wrth i bobl fynd yn hŷn..... Roedd gan fy ngŵr ddementia ac un diwrnod des i adref a dywedodd 'Dwi wedi rho'r haearn nôl ar y top'. Ac roedd yna declyn sy'n mynd ar y top, ond rhoddodd yr haearn yn syth ar ben y peiriant”.*

**Cyfranogwr 2:** *“Byddai fy Mam yn anghofio diffodd y popty ac yn gadael y cylchau ymlaen... neu byddai'n mynd o un eithaf i'r llall. Byddai'n diffodd popeth yn y tŷ ac yna byddai'n ffonio i ofyn pam nad oedd y teledu'n gweithio neu pam fod y gwres wedi diffodd. Felly, mae'n achosi pryder”.*

Gofynnem i rai o'n darparwyr gwasanaeth p'un ai gallai byw gartref gyda dementia roi pobl mewn mwy o berygl o ddamweiniau, yn eu profiad hwy:

*“... mae set wahanol o risgiau'n dod gyda phobl sydd â dementia, yn bendant, ac maent yn gadael offer trydan ymlaen yn hirach nag y byddent yn gwneud fel arfer efallai .... wrth gwrs rydym yn ceisio addysgu, ond efallai na fyddant yn gallu adalw'r wybodaeth honno'n ddiweddarach, felly mae'n rhaid i ni adael mwy o daflenni a gwybodaeth, a gosod mwy o fesurau ataliol”.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia' (2011) ac yn ddiweddar mae wedi cwblhau ymgynghoriad fel sail i'w strategaeth “Law yn Llaw at Gymru sy'n Deall Dementia 2017-2022”<sup>99</sup>. Cydnabyddir bod cadw pobl sydd â dementia yn ddiogel ac yn sicr yn y gymuned yn allweddol<sup>100</sup>, ynghyd â chyflwyno mentrau ymarferol fel asesu peryglon yn yr amgylchedd cartref ffisegol a defnyddio technoleg (teleofal, teleiechyd a thechnoleg gynorthwyol) i helpu pobl i fyw'n annibynnol. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r datganiadau hyn yn cynnwys cyfeiriad uniongyrchol at faterion diogelwch trydanol ar gyfer y rhai sy'n byw gyda dementia yng Nghymru.

Gallai Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia adlewyrchu materion diogelwch trydanol yn y cartref, ac archwilio atebion posibl, er enghraifft trwy estyn ei hagenda at dechnolegau clyfar.

## Cefnogi Pobl Hŷn i Aros yn Eu Cartrefi yn Ddiogel

Yng Nghymru, mae tri Awdurdod Tân ac Achub (FRA)<sup>101</sup> sy'n gwasanaethu Gogledd, Canolbarth a Gorllewin, a De Cymru. Caiff eu gwaith ei lywio gan fframwaith cyfreithiol a pholisi a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru<sup>102</sup>, ac sydd hefyd yn gydnaws â Strategaeth Gwasanaethau Tân ac Achub<sup>103</sup> y DU at ddibenion cwrdd â'r “her o ddiogelu poblogaeth sy'n heneiddio”.

Mae'r fframwaith yng Nghymru yn cydnabod bod posibilrwydd y bydd pobl hŷn yn wynebu risgiau diogelwch wrth fyw yn y gymuned<sup>104</sup>, gan y byddant yn fwy tueddol i gael damweiniau oherwydd problemau iechyd meddwl ac eiddilwch cyffredinol, yn enwedig ymhlith pobl hen iawn; gall profi tân yn y cartref sigloŷu hyder ynghylch medru parhau i fyw'n annibynnol.

Mae gwaith y *Gwasanaethau Tân ac Achub* felly yn canolbwyntio ar fentrau atal a chydweithredu trawsbartneriaeth, yn cynnwys gweithgareddau fel rhoi hyfforddiant am ddim i ofalwyr proffesiynol yn y gymuned, fel y gallant atgyfeirio’u cleientiaid ar gyfer gwiriadau diogelwch yn y cartref; a threfnu digwyddiadau blynyddol i hybu ymwybyddiaeth o ddiogelwch trydanol, ynghyd â dosbarthu deunyddiau hyrwyddo a anelir at roi cyngor i bobl hŷn ynghylch cadw’n ddiogel yn eu cartrefi. Mae staff y *Gwasanaethau Tân ac Achub* hefyd yn derbyn hyfforddiant ar ymwybyddiaeth dementia ac atal cwmpadau.

Fel rhan o’u strategaeth atal, mae’r *Gwasanaethau Tân ac Achub* yn cynnig ymweliadau i eiddo domestig i ddarparu cyngor a gwiriadau diogelwch tân yn y cartref, a chyflenwi a gosod larymau mwg am ddim. Er enghraifft, mae Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cynnal 105,000 o wiriadau diogelwch yn y cartref dros y 10 mlynedd diwethaf<sup>105</sup>, mae ganddynt adran benodedig ar eu gwefan ar gyfer diogelwch tân i bobl hŷn, ac maent yn cynnig cyngor ynghylch coginio diogel, defnyddio blancedi trydan, ac ati. Cynhaliodd *Awdurdod Tân ac Achub De Cymru*<sup>106</sup> dros 23,000 o wiriadau diogelwch tân yn y cartref yn 2014-15 a thros 21,000 yn ystod y flwyddyn ganlynol<sup>107</sup>, gyda’u cymheiriaid yng Ngogledd Cymru<sup>108</sup> yn cynnal ychydig dros 20,000 rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017<sup>109</sup>. Yn ddiweddar mae’r gwasanaethau hyn wedi bod yn adrodd am nifer uchel o danau damweiniol mewn cartrefi a achoswyd gan goginio, felly mae codi ymwybyddiaeth o’r maes penodol hwn yn hanfodol.

### Astudiaeth achos: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn trawsbartneriaeth hefyd yn allweddol o ran atal achosion. Soniodd un o’n rhanddeiliaid o *Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru* am hyn yn ystod cyfweiliad, gan bwysleisio pa mor bwysig yw’r cydweithrediad hwn wrth helpu i sicrhau eu bod yn blaenoriaethu ac yn targedu pobl hŷn a’u teuluoedd i godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth ymarferol, yn cynnwys ar ddiogelwch trydanol:

*“Un o’r pethau rydym yn gweithio’n galed arno yw codi ymwybyddiaeth gydag asiantaethau gofal, p’un ai drwy’r gwasanaethau cymdeithasol neu’r awdurdod lleol neu drwy gwmnïau preifat. Rydym wedi sylwi’n gyffredinol, yn achos llawer o’r tanau damweiniol mewn anheddau sy’n ymwneud â phobl hŷn, bod gofalwyr yn mynd yno weithiau dair neu bedair gwaith y dydd ac nid ydynt yn sylwi ar y peryglon tân. Er enghraifft, os ydy’r bobl hŷn yn gorlwytho’r socedi plygiau neu maent yn ysmegu ac maent yn gweld tystiolaeth o losgiadau ar eu dillad neu eu dodrefn. Wyddoch chi, rydym yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlith y gofalwyr fel y byddant yn adnabod y bobl agored i niwed hyn.”*

Mae *Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru* yn gweithio’n strategol gyda phartneriaid i sicrhau rhannu gwybodaeth effeithiol, croes-atgyfeirio, a darparu a derbyn hyfforddiant ynglŷn â lleihau’r risgiau ar gyfer pobl hŷn. Mae hyn yn golygu eu bod wedi cyfuno’u prosesau gyda’r awdurdodau lleol ar gyfer comisiynu a chyflwyno gwasanaethau i bobl hŷn a’u teuluoedd, ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau i Oedolion a’r Gymuned a’r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yn cynnwys meddygon teulu), ynghyd â rhanddeiliaid fel *Cymdeithas Alzheimer*, *Gofal a Thrsio Cymru*, *Age Cymru*, *Age Concern*, ac ati. (Gweler Atodiad 3).

### Enghraifft o ymarfer arloesol o ran gweithio mewn partneriaeth:

I hybu partneriaeth sy'n gweithio i atal risgiau o safbwynt mwy holistaidd, mae *Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru* yn rhedeg astudiaeth beilot sy'n ystyried nifer o ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd rhywun, yn cynnwys eu hiechyd (e.e. ysmegu, cwympiadau, a thrais yn y cartref), ynghyd â'r cyd-destun ffisegol maent yn byw ynddo (e.e. gwiriadau ar gyfer diogelwch yn y cartref):-

*“Mae ein prosiect ‘diogel ac iach’ yn enghraifft ddelfrydol ... rydym wedi cynnwys pedair ffrwd ychwanegol ar gyfer ein hymweliadau, felly yn hytrach na chanolbwyntio ar dân, rydym nawr yn gwneud asesiadau syrthio ar gyfer therapi galwedigaethol, rydym yn gwneud peidio ag ysmegu, rydym yn gwneud rhyw fath ar iechyd a diogelwch cyffredinol, iechyd a ffitrwydd corfforol, rydym hyd yn oed yn gwneud trais yn y cartref fel rhan o hynny, ac ymwybyddiaeth carbon monocsid a thipyn o ddiogelwch yn y cartref, hefyd. Felly ar gyfer peidio ag ysmegu nid y ni yw'r arbenigwyr. Penderfynodd “Ash” yng Nghymru weithio mewn partneriaeth â ni, sy'n wych. Ar gyfer ymwybyddiaeth carbon monocsid nid y ni yw'r arbenigwyr; felly, gofynnwyd i Wales & West Utilities am wybodaeth gyda thafenni y gallwn eu dosbarthu ar eu rhan. Felly, mae'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion a thynnu ar eu harbenigedd ac rydym yn gweithio ar lwybrau atgyfeirio hefyd.”*

## Technolegau Cynorthwyol a “Chlyfar”

Mae technoleg gynorthwyol (AT) wedi ei chydabod gan *Gymdeithas Alzheimer* fel elfen bwysig wrth wella diogelwch trydanol yn y cartref ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig y rhai hynny sy'n fwy agored i niwed, fel pobl sydd â dementia<sup>110</sup>, gan y gall helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â threfnau bob dydd fel paratoi a choginio bwyd. Yn aml, mae'r technolegau hyn wedi cael eu dylunio i gwrdd ag anghenion iechyd yn hytrach na sicrhau diogelwch yr amgylchedd cartref.

Mae technolegau clyfar (STs), dyfeisiau electronig neu systemau y gellir eu cysylltu i'r rhyngwrwyd a'u defnyddio'n rhyngweithiol<sup>111</sup> yn darparu ffordd arall ymlaen wrth sicrhau diogelwch yn yr amgylchedd cartref. Maent yn gwneud hyn trwy atal neu ganfod peryglon trydanol a allai fel arall arwain at ddigwyddiadau tân. Un o'u manteision yw eu bod yn gweithredu o bell, gan weithredu fel system rybuddio. Er enghraifft, bydd canfodyddion tân neu fwg traddodiadol (prif gyflenwad neu fatris) yn gweithio y tu mewn i'r cartref, ond gall “synhwyrdd mwg neu dân clyfar” gael ei fonitro ar ffôn symudol neu gan y gwasanaeth tân<sup>112</sup>. Bydd y rhain yn arbennig o ddefnyddiol mewn cartrefi ble mae angen cymorth gyda bywyd bob dydd ar bobl hŷn, gan y ffrindiau, teulu neu ddarparwyr gwasanaeth weithredu fel “hybiau monitro”. Gall STs eraill alluogi monitro pell ar gyfer dyfeisiau trydanol bach, a gallant chwarae rhan bwysig mewn diogelu ac atal ar gyfer pobl hŷn trwy bethau fel poptai clyfar ble gall y cyflenwad trydanol gael ei ddiffodd i atal gorboethi<sup>113</sup>.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pwysigrwydd ehangu'r defnydd o dechnolegau cynorthwyol ar gyfer pobl sydd â dementia, yn enwedig ar gyfer y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, mwy anghysbell<sup>114</sup>, ac yn ddiweddar mae wedi sefydlu *Grŵp Technegol “Byw yn Glyfar”*<sup>115</sup>. Mae *Cyngor Gofal Cymru* wedi cydnabod yr angen am wella hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff ynglŷn â thechnolegau cynorthwyol electronig fel ffordd ymlaen i sicrhau lles ac annibyniaeth<sup>116</sup>. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r mentrau cenedlaethol hyn yn canolbwyntio ar y rôl y gallai technolegau cynorthwyol a chlyfar eu chwarae wrth hyrwyddo diogelwch trydanol ac atal risgiau i bobl hŷn. Ar hyn o bryd, mae mwy o ffocws ar ganlyniadau iechyd neu ar fesurau effeithlonrwydd ynni, yn hytrach na diogelwch personol ac aelwydydd.

Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno'r pwnc diogelwch trydanol yn y cartref ar eu hagenda "technologau clyfar".

O safbwynt darparwr gwasanaeth, *Gwasanaeth Tân ac Achub De Orllewin Cymru* er enghraifft, gall hwn ddarparu nifer o osodiadau ataliol, y mae rhai ohonynt yn tynnu ar dechnolegau cynorthwyl a chlyfar, yn benodol mewn aelwydydd ble mae pobl hŷn sydd â dementia:-

*"Mae amrywiaeth o bethau y gallem eu gwneud i gynorthwyo (pobl sydd â dementia) ... larymau stof, ... systemau chwistrellu cludadwy ... falfiau cau ar gyfer poptai y gall gofalwyr eu defnyddio pan fyddant yn cyrraedd ..... y 'system lymphiau' ble gallwch roi un lwmp, dau lwmp ar lîd estyn, fel y bydd pobl yn gallu teimlo pa un sydd ar gyfer pa eitem .... lidiau estyn rheoli o bell, fel y gallwch arunigo gwahanol rannau o'r lîd estyn ..... os oes gennych gyflenwad cyfyngedig yn eich cegin ac rydych eisiau cadw'r rhewgell-rewgist, gallwch ddiffodd y tostiwr neu'r tegell. O'r blaen, roedd gennym y rhai rheoli o bell hefyd".*

Maent hefyd yn chwilio am dechnoleg glyfar i helpu i fonitro dyfeisiau trydanol:

*"... un rhan o'n strategaeth yw chwilio am ddatblygiadau technolegol i weld sut gall y rhain ein helpu i leihau risg, felly mae'r prosiect yn cynnwys tabledi o ddydd i ddydd, yn rhoi gwybod i bobl os yw'r tymheredd yn eu cartref yn rhy uchel neu'n rhy isel... " a hefyd "sichrau bod pob aelwyd yn cael synhwyrdd gwres yn y gegin, felly rydym wedi ehangu ein larwm mwg i ganfod gwres .... rydym yn darparu larymau â chyswllt ar gyfer pobl gyda nam ar y clyw .... yn wir mae'r rhain yn galluogi wifi, felly os oes gennych gymydog da neu deulu a ffrindiau'n byw drws nesaf, gallwn gysylltu'r larymau".*

## Codi Ymwybyddiaeth ynghylch Diogelwch Trydanol

Gall codi ymwybyddiaeth pobl hŷn o ddiogelwch trydanol fod yn heriol, nid yn unig am na fydd ganddynt fynediad at wybodaeth a chyngor, ond oherwydd y byddant efallai'n byw gartref ac yn anymwybodol o rai o'r peryglon sy'n codi yn ystod eu trefnau neu eu hymddygiad bob dydd o ran diogelwch trydanol.

Mae darparwyr gwasanaeth yn ymwybodol bod y risg hon yn un o'r materion pwysicach maent yn eu hwynebu wrth ddelio â diogelwch trydanol:

*"I ninnau, mae'n ymwneud â defnydd ac ymddygiadau. Y (peth) pwysicaf yn sylfaenol yw defnydd cyffredinol ... edrych ar yr ymddygiadau mewn eiddo, edrych ar socedi wedi'u gorlwytho ac ymwybyddiaeth gyffredinol unigolion ..... mae llawer o bobl ddim yn gwybod am y rheol 13 amp mewn perthynas â lidiau estyn neu am y defnydd cywir o lidiau estyn a sut i ddefnyddio offer trydan. Mae llawer o unigolion ddim yn gwybod am restrri adalw a sut i wirio'u nwyddau gwyn ar ôl eu prynu, felly mae'n ymwneud â chyfrifoldeb personol am nwyddau sydd yn eich cartref ..... pan fod rhywun yn mynd yn fwy agored i niwed wrth fynd yn hŷn, mae angen eu hatgoffa bod y gwasanaethau hynny ar gael i'w cefnogi ar ffurf ymweliadau i'r cartref gan y gwasanaeth tân lleol neu edrych ar yr amrywiaeth anferth o ddeunyddiau y mae Electrical Safety First yn eu darparu hefyd i helpu".*

Ar gyfer pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, mae nifer o sefydliadau'n cynnig gwybodaeth, cyngor a/ neu gymorth am ddiogelwch yn y cartref, ac er bod y rhain yn darparu ar gyfer ystod oedran eang, bydd nifer sylweddol o'u cleientiaid yn bobl hŷn. Mae'r rhain yn cynnwys *Electrical Safety First*<sup>117</sup>; *Age Cymru*<sup>118</sup> (e.e. gwybodaeth a chyngor ar ddiogelwch tân yn y cartref a blancedi trydan); *Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau – Cymru*<sup>119</sup> (e.e. gwybodaeth am ddiogelwch yn y cartref – larymau mwg, llithro, tripio a syrthio). *Shelter Cymru*<sup>120</sup> (gwefan sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl, heb ystyried eu deiliadaeth, er enghraifft rhagofalon diogelwch trydanol a thân); *Her Iechyd Cymru*<sup>121</sup> (tudalen benodedig ar gyfer pobl hŷn ar y wefan er nad yw'n cyfeirio'n uniongyrchol at faterion diogelwch trydanol yn y cartref). Mae gwefan *Dewis Cymru*<sup>122</sup>, a sefydlwyd mewn ymateb i *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014*, yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau sy'n helpu i hyrwyddo lles pobl ac mae ganddi safle penodedig ar gyfer diogelwch trydanol.

## Codi Ymwybyddiaeth – Gwybodaeth Awdurdod Lleol Trwy'r We

Os oes gan bobl hŷn fynediad i'r rhyngwrwyd, efallai byddant yn gallu dod o hyd i wybodaeth am ddiogelwch trydanol ar wefan eu hawdurdod lleol. Mae Atodiad 4 yn egluro'r math o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar eu gwefan ynglŷn â diogelwch trydanol. Fodd bynnag, mae ffigurau arolwg diweddar ar gyfer Cymru'n<sup>123</sup> dangos bod cyrchu gwybodaeth a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus y llywodraeth ar-lein yn rhywbeth y mae pobl hŷn yn annhebygol o'i wneud: er enghraifft, roedd 69% o bobl iau rhwng 16-29 oed a ddywedodd eu bod yn defnyddio'r rhyngwrwyd o leiaf unwaith yr wythnos, wedi ymweld â gwefan y llywodraeth neu wefan gwasanaethau cyhoeddus er eu defnydd personol dros y 12 mis diwethaf, o gymharu â dim ond 35% o bobl 75 oed neu fwy. Mae hyn yn awgrymu y gallai teulu, ffrindiau neu gymdogion fod mewn safle da i rannu eu gwybodaeth o'r rhyngwrwyd er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl hŷn yn eu rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol.

## Codi Ymwybyddiaeth Trwy'r Rhyngwrwyd

Rydym bellach yn byw mewn oes ble mae'r rhyngwrwyd yn blatfform pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth. Tra bod hyn yn golygu y gall pobl hŷn elwa ar yr hwylustod o gyrchu gwybodaeth am ddiogelwch trydanol heb adael eu cartref, mae'n bwysig nodi'r ffigurau diweddar sy'n dangos, er bod gan bron wyth o bob deg (78%) aelwyd yng Nghymru fynediad i'r rhyngwrwyd, dim ond pedwar o bob 10 (41%) aelwyd gyda phensiynwr sengl oedd â mynediad yn y cartref<sup>124</sup>.

Mae *Arolwg Cenedlaethol Cymru* hefyd yn dangos mai pobl hŷn sydd leiaf tebygol o fod yn ddefnyddwyr cyfredol y rhyngwrwyd ... mewn geiriau eraill, y nhw yw'r rhai sydd yn y perygl mwyaf o gael eu *hallgáu'n ddigidol*: "... oedran oedd y dangosydd allweddol o ran allgáu digidol: nid oedd 52% o bobl 65 oed a throsodd yn defnyddio'r rhyngwrwyd ar hyn o bryd, o gymharu ag 1% o bobl 18-24 oed. Mae'r canlyniadau'n dangos gostyngiad parhaol yn niferoedd y bobl 65 oed a throsodd sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol: o 61% yn 2012-13 i 56% yn 2013-14, a 52% yn yr arolwg diweddaraf hwn" (Llywodraeth Cymru. Hyd. 2015: 12).

Roedd rhai o'r darparwyr gwasanaeth a gyfwelwyd gennym yn ymwybodol o'r her hon, ac maent wedi addasu eu gweithgareddau allgymorth i geisio mynd i'r afael â'r risg o atal pobl hŷn rhag cael gwybodaeth a chyngor ynglŷn â diogelwch yn y cartref:

*“Fyddwn i ddim yn dweud bod llai o ymwybyddiaeth (ymhlith pobl hŷn). Byddwn i’n dweud bod cyflwyno gwybodaeth i’r unigolion hynny ychydig yn fwy anodd oherwydd y sianeli cyfathrebu; mae’r cyfryngau cymdeithasol yn wych, ond mae’n well gan yr unigolion agored i niwed rydym ni’n delio â nhw rhyngweithio ac ymgysylltu wyneb yn wyneb. Yr hyn rydym ni’n ceisio gwneud felly wrth i ni edrych ar yr ystadegau, yw proffilio’r person dan sylw a gweld beth fyddai’n dderbyniol i’r person hwnnw, pa fathau o gyfathrebu. Rydym yn ceisio bod ychydig yn fwy deallus ynglŷn â sut i siarad â phobl, sut rydym yn cyfathrebu, a pheidio â chymryd yn ganiataol bod pawb ar y cyfryngau cymdeithasol...”.*

Yn ôl cyfranogwyr eraill yn y grwpiau ffocws, pe byddai yna un neges yr hoffent ei hanfon at Lywodraeth Cymru ynglŷn â diogelwch trydanol a phobl hŷn, ar ran perchenogion tai, y neges honno fyddai:

**Cyfranogwr 1:** *“Cael rhywun i ddod i’ch cartref i wirio”.*

**Cyfranogwr 2:** *“Yn union. A byddai’n dda cael eich atgoffa a gallech eu ffonio eich hunan a dweud ‘dyna rywbeth i’ch atgoffa. Allwch chi alw heibio?’ Bob dwy flynedd efallai? Ond byddai’n rhoi tawelwch meddwl, am wn i”.*

Yn y cyd-destun Cymreig, byddai codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch trydanol ymhlith pobl hŷn yn gwella pe byddai: adrannau penodedig ar dudalennau gwe sy’n amlygu “diogelwch trydanol” fel categori diogelwch ar wahân; deunyddiau ar gael mewn print bras ac yn Gymraeg; pwyntiau mynediad eraill at gyfer gwybodaeth heblaw am ffynonellau seiliedig ar y rhyngwrwyd, gan fod mynediad i’r rhyngwrwyd a’r defnydd ohono yng Nghymru yn dal i fod yn llai tebygol hynaf oll yr ydym, er gwaethaf gwelliannau diweddar; a thargedu teulu, ffrindiau a chymdogion fel bod y rhain yn defnyddio’u gwybodaeth o’r rhyngwrwyd i helpu pobl hŷn i gyrchu’r ffynhonnell hon o wybodaeth a chyngor.

## Gofal a Thrwsio Cymru

Mae *Gofal a Thrwsio Cymru*<sup>125</sup> a’i asiantaethau cyswllt yn cynnig cyngor a gwasanaethau ymarferol ledled Cymru i helpu pobl hŷn i fyw’n annibynnol yn eu cartrefi mewn amgylcheddau diogel, cynnes a hygyrch. Maent yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, darparwyr iechyd a rhai gwasanaethau tân i gynnig amrywiaeth o wasanaethau, yn cynnwys gwaith atgyweirio, gwelliannau ac addasiadau i’r cartref, ynghyd â gwasanaethau newydd ac arloesol fel hwyluso dod adref o’r ysbyty neu glirio annibendod. Mae eu gweithwyr achos yn chwarae rhan bwysig drwy gysylltu â darparwyr gwasanaethau eraill neu elusennau i sicrhau cymorth ychwanegol ar gyfer eu cleientiaid. Yn 2015-16, er enghraifft, rhoesant gymorth i bron 29,000<sup>126</sup> o bobl hŷn, a nifer sylweddol o ddinasyddion hen iawn – roedd tua 1 o bob 10 yn 90+ oed. Ymhlith y cymorth a ddarparwyd ganddynt, cafodd tua 1,700 o bobl gymorth yn ymwneud â gwresogi a chynhesrwydd fforddiadwy a derbyniodd dros 15,500 o bobl gymorth i osgoi tripio a syrthio. Cafodd bron 16,500 gymorth gydag addasiadau cyflym trwy eu rhaglen addasiadau ymateb cyflym.

Yn 2015-16, fel rhan o’u gwaith diogelwch trydanol craidd a’u gwasanaeth addasiadau ymateb cyflym, cafodd cleientiaid hŷn ledled Cymru fudd o amrywiaeth o welliannau diogelwch trydanol yn y cartref yn cynnwys gwiriadau/adolygiadau diogelwch trydanol (103 wedi’u cwblhau), ailweirio llawn neu rannol ar eu gosodiadau trydanol (181), a gwelliannau i osodiadau socedi trydan (141<sup>127</sup>).



Yn ychwanegol, mae *Gofal a Thrwsio Cymru* yn gweinyddu cronfa fechan ar ran *Electrical Safety First* fel rhan o'u cronfa galedi. Yn 2016, er enghraifft, rhoddodd *Gofal a Thrwsio Cymru* gymorth i 39 o gleientiaid drwy'r gronfa hon, gyda gwariant cyfartalog o £256 y cleient<sup>128</sup>.

### Astudiaethau achos Gofal a Thrwsio:

- Mae Miss Peterson yn wraig 60 oed sy'n byw ar ei phen ei hun yng Ngogledd Cymru. Oherwydd damwain car mae Miss Peterson yn dioddef o symudedd cyfyngedig a rhywfaint o niwed i'r ymennydd. Pan ymwelwyd â hi, roedd Miss Peterson wedi cael ystafell wlyb wedi ei gosod yn barod, ond doedd y gawod drydan ddim yn gweithio ac felly roedd yn cael anhawster mawr i ymolchi. Roedd y grant o £267 gan Electrical Safety First yn talu am gost atgyweirio'r gawod ac mae hyn wedi helpu Miss Peterson i adennill ei hannibyniaeth.
- Mae Mr a Mrs Walker newydd symud tŷ. Sylweddolont fod angen ailweirio trydanol llawn ar y tŷ newydd ac felly roedd y tŷ yn anniogel iddynt barhau i fyw ynddo. Oherwydd y grant hon gan Electrical Safety First, roedd Gofal a Thrwsio wedi trefnu newid yr uned defnyddiwr yn yr eiddo, gan gael gwared â'r perygl mwyaf ar yr adeg honno. Ymgeisiodd eu gweithiwr achos Gofal a Thrwsio am gyllid llesionol ychwanegol hefyd i dalu am yr holl waith ailweirio trydanol yn eu cartref ac am gyllid gan gynllun Nyth Llywodraeth Cymru, i ddarparu gwres canolog yn eu cartref. Mae Electrical Safety First wedi cefnogi Gofal a Thrwsio i wella diogelwch y bobl hŷn agored i niwed hyn.
- Mae Mrs Davies yn 66 oed ac yn byw ar ei phen ei hun. Nid oedd gwres yn ei heiddo ac felly ymgeisiodd Gofal a Thrwsio i gynllun Nyth Llywodraeth Cymru am arian i osod gwres canolog yn yr eiddo. Sylweddolwyd bod angen ailweirio trydanol llawn ar Mrs Davies yn yr eiddo ac felly ni allai unrhyw waith ychwanegol fynd yn ei flaen. Ni allai Mrs Davies fforddio talu'r gost o ailweirio; fodd bynnag cyfrannodd grant o £500 gan Electrical Safety First at y gost hon. Gyda chyllid llesionol ychwanegol, medrodd Gofal a Thrwsio helpu Mrs Davies gyda'r ailweirio ar ei heiddo, gan ei galluogi i gael gwres canolog wedi'i osod hefyd. Diolch i'r bartneriaeth rhwng Gofal a Thrwsio ac Electrical Safety First, mae Mrs Davies yn cael byw mewn cartref cynnes a diogel.

Ni waeth pwy yw'r darparwr gwasanaeth, mae'n rhaid i bobl hŷn yng Nghymru gydymffurfio â meini prawf penodol i fod yn gymwys i dderbyn cymorth grant, ac mae gwahaniaethau yn y ddarpariaeth grantiau yn ôl yr awdurdod lleol ble maent yn byw.<sup>129</sup> Mae hyn yn golygu y bydd cyrchu cymorth i gael addasiadau diogelwch trydanol yn amrywio yn dibynnu ar ble rydych yn byw yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei amlygu yn y detholiad canlynol o'r cyfweiliad gyda dau o swyddogion technegol Gofal a Thrwsio o awdurdodau gwahanol, ond cyfagos yn Ne Cymru.

**Cyfwelydd:** *“Pa fath o grantiau sydd ar gael? Oes yna grantiau penodol ar gyfer diogelwch trydanol?”*

**Swyddog Technegol Gofal a Thrwsio 1:** *“... cyhyd bod y cleientiaid yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd o ran oedran, cynilion, yr incwm neu fudd-daliadau y maent yn derbyn...cyhyd y gallwn gefnogi a phrofi'r angen hwnnw naill ai drwy adroddiad archwiliad gweledol neu adroddiad prawf cyfnodol llawn, yna bydd Awdurdod Lleol XXXX yn gweld hynny fel y meini prawf o blaid ailweirio. Mae'r uwchraddio lleiaf oll yn ailweirio llawn mewn gwirionedd.*

**Swyddog Technegol Gofal a Thrwsio 2:** *“Ond yn anffodus, yn Awdurdod Lleol XXX, does dim arian gan y cyngor ac rydym yn paratoi llawer o ddyfynbrisiau preifat i unigolion ac wrth gwrs rydym yn mynd at gontractwyr trydanol, ond mae'r gost yn syrthio nôl ar yr unigolyn”.*



Mae tystiolaeth ansoddol gan un o'n sgysiau grŵp ffocws yng Ngorllewin Cymru yn amlygu'r ffaith y gall y gost fod yn ffactor waharddol os oes gan bobl hŷn broblemau yn ymwneud â diogelwch trydanol, ac wedyn gwneud y gwaith eu hun yw'r unig opsiwn ymarferol iddynt:

**Cyfwelydd:** *“Ble fydddech chi'n cael gwybodaeth neu gyngor i sicrhau bod eich cartref yn ddiogel o ran trydan? Sonioch chi am y gwasanaeth tân a'r trydanwr lleol sydd wedi hanner-ymddeol...”*

**Cyfranogwr 1:** *“Mae'n dda”.*

**Cyfranogwr 2:** *“Byddai llawer o bobl ddim yn gwneud hynny oherwydd y gost; gofyn i drydanwr cymwysedig ddod i mewn a gwirio”.*

**Cyfranogwr 3:** *“Rydym yn gofyn i ffrind yn lle hynny”.*

**Cyfwelydd:** *“Os yw'r gost yn broblem, beth fydddech chi'n ei wneud pe byddai angen trydanwr arnoch?”*

**Cyfranogwr 2:** *“Naw gwaith allan o ddeg byddwn yn gwneud y gwaith fy hun”.*

**Cyfranogwr 4:** *“Byddwn yn gofyn i fy meibion .... Teulu”*

**Cyfranogwr 1:** *“Fy mab”.*

**Cyfwelydd:** *“Ydy e'n gwybod am bethau trydanol?”*

**Cyfranogwr 1:** *“Na (chwerthin)”.*

I rai perchenogion tai hŷn, bydd y gost waharddol yn golygu nad yw gwaith trydanol ataliol a diogelwch yn cael ei wneud; ac ar gyfer awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol sy'n gweithio tuag at y targedau a bennwyd ar gyfer cydymffurfio â'r WHQS, bydd niferoedd sylweddol yn derbyn cydymffurfiaid dan *amodau methiannau derbyniol* os, er enghraifft, mae'r gost o unioni'n waharddol neu mae'r tenantiaid yn gwrthod gwaith. Rydym hefyd yn gwybod bod unioni peryglon trydanol a thân mewn anheddau yng Nghymru yn cael ei amcangyfrif yn waith costus iawn (StatsCymru, 2010: Tablau 6 a 7).

I fynd i'r afael â'r heriau hyn, gellid datblygu ffyrdd newydd o asesu cymhwyster ar gyfer cael grantiau i wella diogelwch trydanol, yn cynnwys ffactorau fel oedran yr ymgeisydd a ffactorau risg amgylcheddol eraill yn y cartref (e.e. a yw'r system drydanol sydd yn ei lle yn cydymffurfio â'r safonau cyfredol).

## Safon Gyffredin ar gyfer Diogelwch Trydanol mewn Tai yng Nghymru – Targedu'r Mwyaf Agored i Niwed

Mae'r ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r canllawiau yng Nghymru sy'n rheoli diogelwch amgylcheddau byw pobl hŷn a staff mewn cartrefi gofal yn eithaf cymhleth o ran diogelwch trydanol, ac er gwaethaf y newidiadau rheoliadol mwy diweddar a anelir at ymagwedd fwy cydlynol a llyfn, mae rhywfaint o amrywiad o hyd yn dibynnu ar ddeiliadaeth. Mewn rhai enghreifftiau hefyd, nid yw'r gofynion mor llym ar gyfer trydan o gymharu â ffynonellau tanwydd eraill fel nwy. Wrth i ni edrych ar ystadegau ynglŷn ag anafiadau tân a'r rhai a achosir gan gyflenwad trydanol, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng dau grŵp oedran o bobl hŷn o leiaf – y rhai hynny sydd rhwng 65-79 oed a'r rhai sy'n 80 oed a throsodd. Mae hyn oherwydd bod y risgiau o ddioddef y digwyddiadau hyn, sydd yn aml yn newid bywyd, yn cynyddu'n sylweddol gydag oedran, gan eu gwneud yn grŵp a all fod yn fwy agored i niwed na'r rhai hynny sydd mewn cyfnodau oes eraill. Mae'r stoc dai yng Nghymru yn symud yn gyflym at lefelau uchel o gydymffurfiaid â gofynion yr HHSRS a'r WHQS o ran lleihau peryglon a sicrhau amgylcheddau byw diogel a chyffyrddus. Fodd bynnag, mae amrywiadau yn argaeledd cyllid cyhoeddus ar y lefel awdurdod lleol

yn golygu y gallai'r camau angenrheidiol er mwyn cyrraedd lefelau uwch fyth o gydymffurfiad gael eu peryglu ar ran landlordiaid preifat a pherchenogion tai, yn enwedig o ran talu am y gwaith mwy costus o atgyweirio neu ôl-osod systemau trydanol yn y stoc dai bresennol.

Ar y sail hon, byddai'n ddefnyddiol ymdrechu i ddatblygu ffordd fwy cywrain o ganfod y rhai hynny sydd mewn perygl o brofi problemau gyda diogelwch trydanol, er enghraifft trwy ddatblygu *mynegai risgiau i bobl agored i niwed* (e.e. person hŷn sy'n byw ar eu pen eu hun, ailweirio heb ei wneud, adnoddau economaidd isel, lleoliad daearyddol), y gellir ei ddefnyddio wrth asesu'r angen am gymorth i sicrhau diogelwch trydanol. Os yw'r risg o niwed yn brofedig, bydd Llywodraeth Cymru mewn safle cryfach i sicrhau'r "cydraddoldeb diogelwch trydanol" hwn drwy gyfeirio adnoddau cyfyngedig at y rhai sydd yn y perygl mwyaf (e.e. profion PAT am ddim, archwiliadau trydanol, gwiriadau diogelwch, cymhellion ariannol).

Mae'r Adroddiad hwn wedi gwneud nifer o argymhellion, ar sail y dystiolaeth a adolygwyd ynglŷn â diogelwch trydanol yn amgylcheddau byw pobl hŷn yng Nghymru heddiw. Gallai dadansoddiad ystadegol mwy soffistigedig, er enghraifft yn defnyddio'r *Secure Anonymised Information Linkage Databank – SAIL*, ac yn integreiddio data gan y gwahanol *Wasanaethau Tân ac Achub* yng Nghymru helpu i ddatblygu darlun mwy trachywir o'r bobl, lleoedd a pholisiau y mae angen eu targedu o hyd er mwyn i ni fedru sicrhau cyfle cyfartal ymhlith pobl hŷn yng Nghymru o ran diogelwch trydanol yn ddiweddarach yn eu hoes.

© Atodiadau

---

## 6. Atodiadau

**Atodiad 1.** Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2014): *Iechyd a diogelwch mewn cartrefi gofal. Diogelwch Offer (tud. 24-25).* Cyrchwyd 07-08-17 yn <http://www.hse.gov.uk/pUbns/priced/hsg220.pdf>

### Diogelwch trydanol

“4.19 Mae’n rhaid cynnal offer a gosodiadau trydanol er mwyn atal perygl. Gall systemau trydanol nad ydynt yn cael eu cynnal yn iawn achosi tanau a siociau trydan.

### Gosodiadau trydanol sefydlog

4.20 Mae’r gosodiadau trydanol sefydlog yn cynnwys ceblau cyflenwad sy’n dod i mewn, cyfarpar switshis, byrddau dosbarthu, allfeydd socedi ac ati. I leihau’r risgiau mewn gosodiad trydanol, mae’n hanfodol ei fod yn cael ei osod a’i gynnal yn iawn.

4.21 Y safon fwyaf cyffredin yn y DU o ran gosod a chynnal yw **Gofynion BS 7671:2008 (2013) ar gyfer gosodiadau trydanol (a elwir hefyd yn 17eg Argraffiad y Rheoliadau Weirio IET)**. Mae’r BS 7671 yn god ymarfer a gydnabyddir ac a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU ac mae cydymffurfio â hwn yn debygol o fodloni gofynion perthnasol Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989.

4.22 **Nid yw Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989 (EAWR) yn nodi’r amlder ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw. Y gofyniad cyfreithiol sylfaenol yw cynnal y gosodiad mewn cyflwr diogel.** Dylai penderfyniadau ar yr amlder fod yn seiliedig ar **asesiad risg**. Fodd bynnag, mae’r nodiadau cyfarwyddyd sy’n ategu BS 7671 yn awgrymu y dylai gosodiadau trydanol sefydlog mewn adeiladau preswyl (yn cynnwys cartrefi gofal) gael eu harchwilio a’u profi gan berson cymwys **bob pum mlynedd** – er y gall y bwch rhwng y rhain amrywio ar sail cyngor person cymwys a chanlyniadau eich asesiad risg.

4.23 Os cynhelir gwiriadau gweledol, **dylai staff gael eu hyfforddi** ar beth ddylent gadw golwg amdano (e.e. gorchuddion socedi wedi torri) ond dylid dweud wrthynt am beidio â datgysylltu offer neu geisio eu hatgyweirio oni bai eu bod yn gymwys i wneud hynny.

### Offer trydan cludadwy

4.24 Mae’n rhaid cynnal offer cludadwy a all achosi perygl (yn cynnwys offer sy’n perthyn i’r preswylwr). Fodd bynnag, **nid yw’n ofynnol yn gyfreithiol i brofi’r holl offer trydan cludadwy bob blwyddyn**. Dylech **chi** benderfynu ar lefel ac amlder y gwaith cynnal sydd ei angen ar sail lefel y risg y bydd yr eitem yn dod yn ddiffygiol. Mwyaf aml mae eitem o offer yn cael ei symud, mwyaf tebygol yw hi y bydd yn cael ei difrodi.

4.25 Wrth benderfynu pa mor aml dylid gwneud gwaith cynnal a chadw ar eitem o offer cludadwy, dylech ystyried: p’un ai ei bod wedi ei daearu neu’n meddu ar inswleiddio dwbl; ydy hi’n eitem llaw; ei hoedran; pa mor aml y’i defnyddir; ble caiff ei defnyddio.

4.26 Mewn llawer o achosion bydd **archwiliad gweledol syml** gan aelod staff **sy’n gwybod beth ddylent chwilio amdano yn ddigonol** (e.e. gwirio am geblau llac, gwifrau noeth neu arwyddion o ddifrod tân). Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai bydd angen prawf teclynau cludadwy, e.e. offer wedi’u daearu Dosbarth 1 fel glanhawyr llawr a pheth offer cegin/golchi”.

**Atodiad 2.** Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2014). *Iechyd a diogelwch mewn cartrefi gofal. Diogelwch Tân: (tud. 61). Cyrchwyd 07-08-17 yn <http://www.hse.gov.uk/pUbns/priced/hsg220.pdf>*

#### Diogelwch tân

“13.15 Mae’n rhaid i’r rhai sy’n gyfrifol am yr adeiladau gynnal asesiad risg diogelwch tân, ei ddiweddarau’n rheolaidd, a’i ddefnyddio i sicrhau bod mesurau diogelwch tân angenrheidiol yn eu lle. Dylai nodi beth allai beri i dân ddechrau, yn cynnwys: pethau a allai gynnau tân (e.e. gwres neu wreichion); deunyddiau sy’n gallu llosgi; pobl allai fod mewn perygl.

13.16 Mae mesurau rheoli syml yn cynnwys: cadw pethau a allai gynnau tân a sylweddau fflamadwy ar wahân; sicrhau system dda o ran cadw tŷ (e.e. osgoi pentyrru sbwriel); ystyried sut i ganfod tanau a sut i rybuddio pobl yn gyflym os oes un yn dechrau – efallai bydd angen trefniadau arbennig os oes gan breswylwyr faterion symudedd; meddu ar yr offer ymladd tân cywir, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal yn gywir; sicrhau bod allanfeydd tân a llwybrau dianc wedi eu marcio’n glir a’u bod yn ddirwystr; sicrhau bod eich gweithwyr yn derbyn hyfforddiant priodol”.

**Atodiad 3.** *Gweithio mewn partneriaeth: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac eraill – hybu diogelwch pobl hŷn yn y gymuned*

Sefydliad		Math o gydweithrediad
Age Concern Gwent – Choices Ltd	CLG	Cyflenwi
Age Cymru – Handyvan	MD	Atgyfeirio
Gofal a Thrwsio Blaenau Gwent	MD	Atgyfeirio
Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr	CLG	Cyflenwi
Gofal a Thrwsio Caerffili	MD	Atgyfeirio
Gofal a Thrwsio Caerdydd a’r Fro	MD	Atgyfeirio
Gofal a Thrwsio Cwm Taf	MD	Atgyfeirio
Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen	MD	Atgyfeirio
Gofal a Thrwsio Casnewydd	CLG	Cyflenwi
Ymddiriedolaeth Gofalwyr y De Ddwyrain	MD	Atgyfeirio
Mind Monmouth	MD	Atgyfeirio
Y Llog Brydeinig Frenhinol – Poppycalls	CLG	Cyflenwi
Sight Cymru	MD	Atgyfeirio
Cyngor Cymru ar gyfer Pobl Fyddar	MD	Atgyfeirio
Reach – Byw â Chymorth (Caerffili)	CLG	Cyflenwi
Western Power Distribution	MD	Atgyfeirio

**Cyflenwi:** Cyflenwi Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref ar ran Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i gleientiaid rheolaidd presennol y sefydliad

**Atgyfeirio:** Atgyfeirio cleientiaid i Wasanaethau Tân ac Achub Cymru i gynnal Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref

*Ffynhonnell: darperir y wybodaeth gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac mae’n gyfredol ar Fehefin 2017. CLG = Cytundeb lefel gwasanaeth; MD = memorandwm dealltwriaeth*

**Atodiad 4. Gwybodaeth a Chyngor ar Wefannau Awdurdodau Lleol a Ddarperir i'r Cyhoedd ynglŷn â Diogelwch Trydanol a Phobl Hŷn**

**Cyfredol ym mis Mehefin 2017**

Pwrpas y tabl hwn yw darparu trosolwg o'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd drwy byrth gwefannau'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, mewn perthynas â diogelwch trydanol yn y cartref, a nodi p'un ai fod gwybodaeth a chyngor yn cael eu targedu'n benodol at bobl hŷn sy'n byw gartref. Roedd y wybodaeth a amlinellir yn y tabl yn ddilys ym mis Mehefin 2017. Esbonnir y strategaeth chwilio a ddefnyddiwyd wrth archwilio gwefan pob awdurdod lleol ar ddiwedd y tabl.

Awdurdod Lleol	Gwybodaeth Diogelwch Tân/ Trydanol/yn y Cartref	Dolen i Electrical Safety First	Dolen i Wasanaeth Tân ac Achub/ Gwybodaeth am Wiriad Diogelwch Tân yn y Cartref
<p><b>1. Sir Gâr</b>  <a href="http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr.aspx">http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr.aspx</a></p> <p><i>Term chwilio:</i> diogelwch yn y cartref (ac yna dilyn y ddolen i "gwirio offer trydan a nwy")</p>	<p><b>Oes</b></p> <p><i>Diogelwch yn y Cartref:</i> cyngor cyffredinol am waith cynnal a chadw ac addasiadau yn y cartref gydag adran ar gynnal offer nwy a thrydan; argymhell defnyddio crefftwr cofrestredig</p> <p><a href="http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/tai/cynnal-a-chadw-cartrefiaddasiadau/diogelwch-yn-y-cartref.aspx#.Wfl84bp2vIU">http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/tai/cynnal-a-chadw-cartrefiaddasiadau/diogelwch-yn-y-cartref.aspx#.Wfl84bp2vIU</a></p>	<b>Oes</b>	<p><b>Oes</b></p> <p><i>Dyma'r llwybr:</i> Gofal Cymdeithasol ac Iechyd/Cefnogaeth Gartref/atgyweiriadau ac addasiadau i'ch cartref</p> <p>Maent yn darparu gwybodaeth ynglŷn â chael <b>gwiriad diogelwch tân am ddim</b> a gosod <b>larymau mwg</b>.</p> <p><a href="http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/cymorth-gartref/atgyweiriadau-ac-addasiadau-ich-cartref.aspx#.Wfl97bp2vIU">http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/cymorth-gartref/atgyweiriadau-ac-addasiadau-ich-cartref.aspx#.Wfl97bp2vIU</a></p>
<p><b>2. Abertawe</b>  <a href="http://www.abertawe.gov.uk/preswylwyr">http://www.abertawe.gov.uk/preswylwyr</a></p> <p><i>Term chwilio:</i> mae "diogelwch trydanol" yn arwain i "diogelwch tân"</p>	<p><b>Oes</b></p> <p><i>Diogelwch Tân:</i> Gofal Cymdeithasol a Lles/Pobl hŷn/ Byw yn Annibynnol Gartref/diogelwch yn y cartref/diogelwch tân</p> <p>Gwiriad diogelwch tân am ddim, larymau mwg am ddim, rhif ffôn a dolen i wefan y Gwasanaeth Tân. Gwybodaeth a chyngor ynglŷn â blancedi trydan.</p>	<b>Oes</b>	<p><b>Oes</b></p> <p>Maent yn darparu gwybodaeth ynglŷn â <b>gwiriad diogelwch a chyngor am ddim</b>, a gosod <b>larymau mwg</b>.</p> <p>Maent yn darparu'r rhif 0800 a dolen i wefan y Gwasanaeth Tân.</p> <p><a href="http://www.abertawe.gov.uk/article/6475/Diogelwch-Tan">http://www.abertawe.gov.uk/article/6475/Diogelwch-Tan</a></p>
<p><b>3. Castell-nedd Port Talbot</b>  <a href="https://www.npt.gov.uk/?lang=cy-gb">https://www.npt.gov.uk/?lang=cy-gb</a></p> <p><i>Term chwilio:</i> mae <b>diogelwch trydanol</b> ond yn cynhyrchu dolen i erthygl newyddion ynglŷn â nwyddau ffug:  <a href="https://www.npt.gov.uk/1410?pr_id=5624">https://www.npt.gov.uk/1410?pr_id=5624</a></p>	<p>Os chwiliwch am "<b>diogelwch yn y cartref</b>", mae'r wefan yn eich trosglwyddo i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:  <a href="http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Diogelwch/yn-y-Cartref/Pages/default.aspx">http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Diogelwch/yn-y-Cartref/Pages/default.aspx</a></p> <p>Yn y dudalen hon, mae dolennau ar gyfer gwiriadau diogelwch tân yn y cartref a gwybodaeth ddefnyddiol arall.</p>	<b>Na</b>	<p>Maent yn eich cysylltu â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n rhoi'r wybodaeth hon</p>
<p><b>4. Ynys Môn</b>  <a href="http://www.ynysmon.gov.uk/?action=dropcurrent">http://www.ynysmon.gov.uk/?action=dropcurrent</a></p> <p><i>Termau chwilio:</i> mae "<b>diogelwch trydanol</b>" yn arwain i ddolennau yn ymwneud â: "rhybudd – peidiwch â phrynu eitemau trydanol ffug", "ffeiriau diogelwch yn y cartref", "asesiad risg diogelwch tân" a "diogelwch nwy yn y cartref"</p> <p><i>Term chwilio:</i> "<b>diogelwch tân</b>": yn arwain i'r ddolen "diogelwch tân yn y cartref" ymhlith eraill</p>	<p><b>Diogelwch Tân:</b> Tai/Tai Preifat/ Asesiad risg diogelwch tân / diogelwch tân yn y cartref</p> <p><b>Tîm Gorfodi Tai</b> (01248) 752836 / 752835</p> <p><b>Gwybodaeth:</b> Ystadegau ynglŷn â thanau yn y DU, gwiriad diogelwch yn y cartref am ddim, dolennau i'r gwasanaeth tân, cyngor ynglŷn â threfn diogelwch amser gwely, os oes tân yn dechrau, a larymau mwg</p>	<b>Oes</b>	<p><b>Oes</b></p> <p><a href="http://www.ynysmon.gov.uk/diogelwch-tan/2084.article?redirect=false">http://www.ynysmon.gov.uk/diogelwch-tan/2084.article?redirect=false</a></p> <p>Heblaw am gyngor diogelwch tân, mae'r wefan yn ein hysbysu bod yna "<b>ffeiriau diogelwch yn y cartref</b>" – mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cymryd rhan. Cânt eu trefnu gan "<b>Gynghrair Iechyd Ynys Môn</b>"</p> <p><a href="http://www.ynysmon.gov.uk/cynghrair-iechyd-ynys-mn/2058.article?redirect=false">http://www.ynysmon.gov.uk/cynghrair-iechyd-ynys-mn/2058.article?redirect=false</a></p>

Ydy “pobl hŷn” yn grŵp targed ar gyfer diogelwch trydanol?	Cyfleoedd neu enghreifftiau o arfer da o ran diogelwch trydanol a phobl hŷn	Crynhoad yn ôl awdurdod lleol
<p><b>Ydy</b></p> <p>Mae adran benodedig ar gyfer perchenogion tai 60+ gyda dolennau i Gofal a Thrwisio. Maent yn nodi eu bod yn cynnig “Archwiliadau Cartref Iach” am ddim ac yn cyflawni “mân weithiau atgyweirio neu addasu”.</p> <p><a href="http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/cymorth-gartref/atgyweiriadau-ac-addasiadau-ich-cartref.aspx#.Wfl-KLp2vIU">http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/cymorth-gartref/atgyweiriadau-ac-addasiadau-ich-cartref.aspx#.Wfl-KLp2vIU</a></p>		<p>Nid oes tudalen benodedig ar gyfer diogelwch trydanol ond rhoddir peth cyngor ynglŷn â gwirio offer nwy a thrydan, yn cynnwys dolennau defnyddiol i Electrical Safety First, Gofal a Thrwisio a chyngor wedi'i dargedu at berchenogion tai 60+</p>
<p><b>Ydy</b></p> <p>Rhestrir diogelwch tân ynghyd ag atal cwympiadau, diogelwch yn y cartref, diogelwch nwy a theleofal.</p> <p>Ceir hefyd dolennau i Gofal a Thrwisio Bae'r Gorllewin</p> <p><a href="http://www.abertawe.gov.uk/article/6475/Diogelwch-Tan">http://www.abertawe.gov.uk/article/6475/Diogelwch-Tan</a></p>		<p>Nid oes tudalen benodedig ar gyfer diogelwch trydanol, ond mae yna dudalen ar gyfer “diogelwch tân” ac un ar gyfer “gwaith trydanol”.</p> <p>Dolennau defnyddiol i Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ac i “Diogelwch Blancedi Trydan Electrical Safety First”</p>
<p><b>Na</b></p>		<p>Mae'r brif dudalen yn gweithredu fel peiriant chwilio sy'n eich cyfeirio'n bennaf at ddolennau allanol. O'r herwydd, nid oes tudalen benodedig ar ddiogelwch trydanol neu bobl hŷn.</p>
<p><b>Na</b></p> <p>Ond nodir “rhai elfennau o waith trydanol” fel rhan o'r mân addasiadau y gall Gofal a Thrwisio Ynys Môn eu gwneud</p> <p><a href="http://www.ynysmon.gov.uk/tai/gwella-a-thrwisio/addasiadau-ir-cartref?redirect=false">http://www.ynysmon.gov.uk/tai/gwella-a-thrwisio/addasiadau-ir-cartref?redirect=false</a></p>	<p>Y “ffeiriau diogelwch yn y cartref”. Dyddiad yr adroddiad gwerthuso diwethaf oedd 2009 – mae'r adroddiad yn nodi eu bod wedi profi blancedi trydan yn ystod y ffair: “Defnyddiwyd Adran Amgylcheddol Cyngor Ynys Môn fel pwynt cyswllt ar gyfer gwneud apwyntiadau”. Profwyd 189 o flancedi a chynigiodd y Gwasanaeth Tân siacedi ffis cynnes am ddim a thalebau i brynu blancedi trydan newydd</p> <p><a href="http://www.anglesey.gov.uk/download/9690">http://www.anglesey.gov.uk/download/9690</a></p>	<p>Mae'r wefan wedi dyddio mewn manau (e.e. mae'r gwerthusiad o'r ffeiriau diogelwch yn y cartref yn dyddio o 2009).</p> <p>Nid oes dolennau benodol rhwng pobl hŷn a Diogelwch Trydanol.</p> <p>Mae gwybodaeth am Gofal a Thrwisio a chael cyllid ar gyfer ‘rhai elfennau o waith trydanol’</p>

Awdurdod Lleol	Gwybodaeth Diogelwch Tân/ Trydanol/yn y Cartref	Dolen i Electrical Safety First	Dolen i Wasanaeth Tân ac Achub/ Gwybodaeth am Wiriad Diogelwch Tân yn y Cartref
<p><b>5. Gwynedd</b> <a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Trigolion.aspx">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Trigolion.aspx</a></p> <p>Termau chwilio: ni chynhyrnodd “diogelwch trydanol”, “diogelwch tân”, “diogelwch”, “pobl hŷn”, “oedrannus”, unrhyw ganlyniadau.</p>	Na	Na	Na
<p><b>6. Conwy</b> <a href="http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Resident.aspx">http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Resident.aspx</a></p>	Na	Na	<p>Mae dolen i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu tudalen ‘cyngor cyffredinol yn ystod argyfwng’</p> <p><a href="http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Crime-and-emergencies/Preparing-for-Emergencies/During-an-emergency—general-advice.aspx">http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Crime-and-emergencies/Preparing-for-Emergencies/During-an-emergency—general-advice.aspx</a></p>
<p><b>7. Sir Ddinbych</b> <a href="https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/cartref.aspx">https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/cartref.aspx</a></p>	<p>Gwybodaeth finimol am ‘wiriadau diogelwch tân’:</p> <p>Cartref/Budd-daliadau, grantiau a chyngor/addasu neu wella eich cartref/gwiriadau diogelwch tân</p> <p>Nodir eu bod yn cynnig larymau mwg am ddim a gwiriad diogelwch tân am ddim, ond nid oes dolennau na gwybodaeth gyswllt.</p> <p><a href="https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/budd-daliadau-grantiau-a-chyngor/addasu-neu-wella-eich-cartref/gwiriadau-diogelwch-tan.aspx">https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/budd-daliadau-grantiau-a-chyngor/addasu-neu-wella-eich-cartref/gwiriadau-diogelwch-tan.aspx</a></p>	<p>Mae adran ar brynu eitemau trydan ffug:</p> <p><a href="https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/atal-troseddau-ac-achosion-brys/cyngor-i-ddefnyddwyr/prynu-nwyddau-ffug.aspx">https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/atal-troseddau-ac-achosion-brys/cyngor-i-ddefnyddwyr/prynu-nwyddau-ffug.aspx</a></p>	<p>Mae cyngor ar larymau mwg, atal tân, beth i'w wneud yn ystod tân a dolen i wefan gwasanaeth tân Gogledd Cymru:</p> <p><a href="https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/atal-troseddau-ac-achosion-brys/cyngor-brys/tan.aspx">https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/atal-troseddau-ac-achosion-brys/cyngor-brys/tan.aspx</a></p> <p>Rhoddir y cyngor yn yr adran ‘atal troseddau ac argyfyngau’ ar y wefan</p>
<p><b>8. Sir y Fflint</b> <a href="http://www.sirfflint.gov.uk/cy/Home.aspx">http://www.sirfflint.gov.uk/cy/Home.aspx</a></p>	<p>Na</p> <p>Mae yna dudalen ar “ddiogelwch cymunedol” ond dim byd ar ddiogelwch tân/trydanol ac ati</p>	Na	Na
<p><b>9. Wrexham</b> <a href="http://www.wrexham.gov.uk/welsh/index.cfm">http://www.wrexham.gov.uk/welsh/index.cfm</a></p>	<p><i>Diogelwch – Diogelwch Trydanol:</i> <a href="http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/Housing_w/repairs_w/safety.htm">http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/Housing_w/repairs_w/safety.htm</a></p> <p>Mae diogelwch trydanol yn ymddangos dan ‘<b>atgyweirio tai</b>’ – rhoddir awgrymiadau yn ymwneud â diogelwch trydanol, e.e. peidiwch fyth â weirio mwy nag un ddyfais i un plwg.</p>	<p><b>Oes</b>, mae dolen i'r Wefan Diogelwch Trydanol – ond dim ond dan y pennawd ‘Tai Rhent Preifat’ i wella diogelwch mewn cartrefi rhent</p>	<p><b>Oes</b></p> <p>Maent hefyd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â threfnu <b>gwiriad diogelwch tân am ddim</b> gyda rhif 0800 y Gwasanaeth Tân.</p> <p><a href="http://www.wrexham.gov.uk/welsh/life_events_w/retirement/accident_prevention_w/index.htm">http://www.wrexham.gov.uk/welsh/life_events_w/retirement/accident_prevention_w/index.htm</a></p>
<p><b>10. Powys</b> <a href="http://www.powys.gov.uk/cy/">http://www.powys.gov.uk/cy/</a></p>	<p><b>Mae adran gyffredinol ar ddiogelwch:</b></p> <p><a href="http://www.powys.gov.uk/cy/trwyddedu-a-safonau-masnach/safonau-masnach-cyngor-i-fusnesau/diogelwch/sy'n-cynnwys-gwybodaeth-am-offer-trydan-a-r-rheoliadau-presennol">http://www.powys.gov.uk/cy/trwyddedu-a-safonau-masnach/safonau-masnach-cyngor-i-fusnesau/diogelwch/sy'n-cynnwys-gwybodaeth-am-offer-trydan-a-r-rheoliadau-presennol</a></p>	Na	<p>Dim ond mewn perthynas â phobl gyda phroblemau colli clyw – mae cyfeiriad at gael larymau mwg ffllachio am ddim gan y Gwasanaeth Tân, yn cynnwys eu rhif (0800).</p> <p>Ar gyfer yn llety rhent preifat, mae gosodiad ynglŷn â ‘systemau trydanol diffygiol’ a ffonio'r ‘rhif argyfwng perthnasol ar gyfer y gwasanaethau hynny’</p> <p><a href="http://www.powys.gov.uk/cy/housing/cartrefi-wediu-rhentun-breifat/">http://www.powys.gov.uk/cy/housing/cartrefi-wediu-rhentun-breifat/</a></p>



Ydy "pobl hŷn" yn grŵp targed ar gyfer diogelwch trydanol?	Cyfleoedd neu enghreifftiau o arfer da o ran diogelwch trydanol a phobl hŷn	Crynhoad yn ôl awdurdod lleol
<p><b>Na</b></p> <p>mae yna "gynllun comisiynu pobl hŷn" OND nid oes dim byd ynglŷn â tân/diogelwch trydanol</p> <p><a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Older-People-Commissioning-Plan-2011-2016.pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Older-People-Commissioning-Plan-2011-2016.pdf</a></p>		<p>Nid oes unrhyw wybodaeth am ddiogelwch trydanol.</p>
<p><b>Na</b></p>		<p>Gall preswylwyr gael 'cyngor a chymorth' ar y wefan ynglŷn ag amrywiol faterion, yn cynnwys 'problemau gyda landlord' a 'chyflwr tai'. Nodir gosodiadau nwy a thrydanol o ran preswylwyr yn lleisio'u pryderon i'r cyngor. Nid oes unrhyw wybodaeth am ddiogelwch trydanol.</p>
<p><b>Na</b></p>		<p>Nid oes unrhyw wybodaeth sy'n cysylltu pobl hŷn a diogelwch trydanol. Mae digonedd o wybodaeth am atal tân a dolen i wefan y gwasanaeth tân.</p>
<p><b>Na</b></p>		<p>Nid oes unrhyw wybodaeth am ddiogelwch trydanol.</p>
<p><b>Ydy</b></p> <p>Digwyddiadau Bywyd/ ymdeoliad/atal damweiniau</p> <p>Mae cyngor ynglŷn â "choginio" yn yr adran atal damweiniau:</p> <p><a href="http://www.wrexham.gov.uk/welsh/life_events_w/retirement/accident_prevention_w/index.htm">http://www.wrexham.gov.uk/welsh/life_events_w/retirement/accident_prevention_w/index.htm</a></p> <p>a Diogelwch Tân yn y Cartref</p>	<p>Mae yna dîm sector rhent preifat, sy'n darparu cyngor a gwasanaethau archwilio, yn cynnwys diogelwch trydanol, tân a nwy.</p> <p><a href="http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/Housing_w/private_rented_sector.htm">http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/Housing_w/private_rented_sector.htm</a></p>	<p>Mae yna gyngor wedi'i dargedu at bobl hŷn – yn cynnwys yn ystod coginio, ysmygu, defnyddio gwresogyddion cludadwy, a blancedi trydan.</p>
<p>Nid yn uniongyrchol</p>	<p>Mae adran a elwir "gofyn am waith trwsio neu addasiad i dŷ cyngor" <a href="http://www.powys.gov.uk/cy/housing/gofyn-am-waith-trwsio-gan-y-cyngor/">http://www.powys.gov.uk/cy/housing/gofyn-am-waith-trwsio-gan-y-cyngor/</a> ble mae "socedi pŵer neu oleuadau neu osodiadau trydanol anniogel" yn cael eu cynnwys fel "atgyweiriadau cymwys" oherwydd eu bod yn effeithio ar "iechyd neu ddiogelwch".</p>	<p>Nid oes unrhyw wybodaeth mewn perthynas â phobl hŷn – ar wahân i'r ffaith eu bod yn cynnig grantiau bach ar gyfer materion cysylltiedig â diogelwch trydanol (trwy Gwalia)</p>

Awdurdod Lleol	Gwybodaeth Diogelwch Tân/ Trydanol/yn y Cartref	Dolen i Electrical Safety First	Dolen i Wasanaeth Tân ac Achub/ Gwybodaeth am Wiriad Diogelwch Tân yn y Cartref
<p><b>11. Sir Fynwy</b> <a href="http://www.monmouthshire.gov.uk/cy/">http://www.monmouthshire.gov.uk/cy/</a></p>	<p>Nid oes adran benodedig ar gyfer diogelwch tân neu drydanol ond mae yna adran ar 'ddiogelwch ac effeithlonrwydd mewn tai'</p> <p><a href="http://www.monmouthshire.gov.uk/safety-and-efficiency-in-housing">http://www.monmouthshire.gov.uk/safety-and-efficiency-in-housing</a> "Os ydych yn byw mewn llety rhent ac rydych yn poeni am iechyd a diogelwch eiddo, gall Tim Iechyd Amgylcheddol y Cyngor eich helpu"</p>	Na	Na
<p><b>12. Ceredigion</b></p>	<p>Nid oes adran benodedig ar ddiogelwch trydanol, ond mae yna adran ar "teimlo'n ddiogel" sydd â dolennau i dudalennau ar 'atgyweirio ac addasu cartrefi' a 'gwiriadau diogelwch tân yn y cartref' ymhlith eraill.</p> <p><a href="http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwr/gofalcymdeithasol/teimlonddiogel/Pages/default.aspx">http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwr/gofalcymdeithasol/teimlonddiogel/Pages/default.aspx</a></p>	Na	<p><b>Oes</b></p> <p>Mae yna dudalen ar "wiriadau diogelwch tân yn y cartref" ble mae dinasyddion yn cael gwybod am 'wiriad diogelwch tân am ddim yn y cartref a gosod synwryddion mwg am ddim'.</p> <p>Mae dolen i wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub a rhoddir y rhif 0800.</p> <p><a href="http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwr/gofalcymdeithasol/teimlonddiogel/Gwiriadau-Diogelwch-Tan-yn-y-Cartref/Pages/default.aspx">http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwr/gofalcymdeithasol/teimlonddiogel/Gwiriadau-Diogelwch-Tan-yn-y-Cartref/Pages/default.aspx</a></p>
<p><b>13. Pen-y-bont ar Ogwr</b> <a href="http://www.bridgend.gov.uk/cy.aspx">http://www.bridgend.gov.uk/cy.aspx</a></p>	<p><b>Nid oes</b> adran benodedig ar ddiogelwch trydanol, ond dan y pennawd 'diogelwch', mae dolen i "tân – gwiriad diogelwch yn y cartref", sy'n eich arwain i wefan Gwasanaeth Tân De Cymru.</p> <p><a href="http://www.bridgend.gov.uk/cy/lgn-level-2/diogelwch.aspx">http://www.bridgend.gov.uk/cy/lgn-level-2/diogelwch.aspx</a></p>	Na	<p><b>Oes</b></p> <p>Rhoddir manylion cyswllt Gwasanaeth Tân De Cymru, ond nid oes gwybodaeth am wiriadau diogelwch ac ati.</p> <p><a href="https://democratic.bridgend.gov.uk/mgOutsideBodyDetails.aspx?ID=197&amp;LLL=1">https://democratic.bridgend.gov.uk/mgOutsideBodyDetails.aspx?ID=197&amp;LLL=1</a></p>
<p><b>14. Merthyr Tudful</b> <a href="https://www.merthyr.gov.uk/resident/?lang=cy-GB">https://www.merthyr.gov.uk/resident/?lang=cy-GB</a></p>	<p>Mae yna adran ar 'ddiogelwch y gymuned' gyda dolen i 'Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Merthyr Tudful', ond mae'r ddolen yn segur.</p> <p><a href="https://www.merthyr.gov.uk/resident/crime-safety-and-emergencies/community-safety/">https://www.merthyr.gov.uk/resident/crime-safety-and-emergencies/community-safety/</a></p>	Na	<p>Cyfeirir at "addysg diogelwch" yn nhermau 'ysgolion a dysgu', ond nid oes dolennau i'r gwasanaethau perthnasol.</p> <p><a href="https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/fire-safety-education/">https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/fire-safety-education/</a></p>

Ydy “pobl hŷn” yn grŵp targed ar gyfer diogelwch trydanol?	Cyfleoedd neu enghreifftiau o arfer da o ran diogelwch trydanol a phobl hŷn	Crynhoad yn ôl awdurdod lleol
<p><b>Na</b></p>		<p>Mae rhai dolennau’n segur (e.e. gosod synwryddion ar gyfer pobl sy’n agored i niwed, grantiau diogelwch yn y cartref – dolen ar y dudalen</p> <p><a href="http://www.monmouthshire.gov.uk/safety-and-efficiency-in-housing">http://www.monmouthshire.gov.uk/safety-and-efficiency-in-housing</a></p> <p>Nid oes unrhyw wybodaeth am ddiogelwch trydanol.</p>
<p><b>Ydy</b></p> <p>Dan y pennawd ‘atgyweirio ac addasu cartrefi’, rhoddir cyngor i bobl 60 oed a throsodd ynglŷn â chael ‘gwaith trwsio neu addasu angenrheidiol’ a gyflawnir gan Gofal a Thrwsio. Maent yn nodi y gall Gofal a Thrwsio gynnal gwiriad diogelwch yn y cartref, yn cynnwys gosod larymau mwg. Maent yn darparu manylion cyswllt.</p> <p>Mae yna adran hefyd ar y Gwasanaeth Tân, sy’n rhoi gwybodaeth am osod larwm mwg am ddim, dolen i wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub a manylion am sut i ofyn am ‘asesiad diogelwch tân yn y cartref’ ar ‘eich cyfer chi neu berthynas dibynnol’. Maent hefyd yn darparu’r rhif 0800.</p> <p><a href="http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwyr/gofalcymdeithasol/home/atgyweirio/Pages/default.aspx">http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwyr/gofalcymdeithasol/home/atgyweirio/Pages/default.aspx</a></p>	<p>Ers 1998, mae menter yn bodoli a elwir “Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion” gyda chynrychiolwyr o amrywiol awdurdodau, yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.</p> <p><a href="http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/ceredigionibawb/diogelwchcymunedol/Pages/default.aspx">http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/ceredigionibawb/diogelwchcymunedol/Pages/default.aspx</a></p> <p>Mae’r cofnodion yn cyfeirio at y fenter Gwasanaeth Tân ac Achub, sef “gwneud i bob cysylltiad gyfrif” yn ystod gwiriadau diogelwch yn y cartref “gan ddangos ymagwedd fwy holistaidd tuag at ddiogelwch cymunedol gan weithio gydag asiantaethau i ddatblygu cyfres o ymyriadau a gefnogir, hyrwyddo negeseuon allweddol, a chodi ymwybyddiaeth o wahanol faterion gan gynnwys rhoi’r gorau i ysmegu, carbon monocsid, iechyd a lles”</p> <p><a href="http://www.ceredigion.gov.uk/cpd/CeredigionStrategicPartnerships_Public/Cofnod%20P%20a%20G%20Diogelwch%20Cymunedol.CYM06.10.16.pdf">http://www.ceredigion.gov.uk/cpd/CeredigionStrategicPartnerships_Public/Cofnod%20P%20a%20G%20Diogelwch%20Cymunedol.CYM06.10.16.pdf</a></p>	<p>Gwefan llawn gwybodaeth gyda dolennau defnyddiol; nid oes adran benodedig ar ddiogelwch trydanol, ond mae yna fentrau i hybu ‘teimlo’n ddiogel’, cydweithrediad ymhlith gwasanaethau a digon o wybodaeth am wiriadau diogelwch yn y cartref gan wasanaethau perthnasol.</p>
<p>Mae’r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynglŷn â grantiau sydd ar gael, ond nid oes dolen i ddiogelwch trydanol.</p> <p><a href="http://www.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/tai-ac-adyfyo-cymunedol/addasiadau-ac-atgyweiriadau-tai.aspx">http://www.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/tai-ac-adyfyo-cymunedol/addasiadau-ac-atgyweiriadau-tai.aspx</a></p>		<p>Ar wahân i’r ddolen i ‘wiriad diogelwch tân yn y cartref’ sy’n eich cyfeirio at wefan Gwasanaeth Tân De Cymru, nid oes unrhyw wybodaeth am ddiogelwch trydanol.</p>
<p><b>Ydy</b></p> <p>Maent yn hysbysebu eu ‘Rhaglen Cefnogi Pobl (SP)’, sy’n ‘helpu i wella iechyd pobl ac yn rhoi gwell mynediad at wasanaethau i bobl sy’n agored i niwed ac yn helpu pobl i gyrraedd gwir annibyniaeth, dewis a rheolaeth dros eu bywydau drwy ddarparu cefnogaeth i helpu pobl i fyw yn fwy annibynnol’. Maent yn cynnig cymorth sy’n gysylltiedig â thai, yn cynnwys ‘cymorth i drefnu gwasanaethu ac atgyweirio teclynnau’, ‘cynnal a chadw a thrwsio mân bethau yn y tŷ’, a ‘chymorth i ddefnyddio teclynnau’r cartref yn ddiogel’.</p> <p>Mae pobl hŷn yn rhan o’r grwpiau targed. Ceir dolen i ffurflen gyfeirio.</p> <p><a href="https://www.merthyr.gov.uk/resident/social-services-and-well-being/adults-older-people/help-to-live-at-home-independently/supporting-people/">https://www.merthyr.gov.uk/resident/social-services-and-well-being/adults-older-people/help-to-live-at-home-independently/supporting-people/</a></p>	<p>Mae yna “Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Merthyr Tudful” sy’n ymrwymedig i sicrhau bod y fwrdeistref yn ‘lle diogelach’ ac mae Awdurdod Tân De Cymru yn rhan ohoni.</p> <p><a href="https://www.merthyr.gov.uk/resident/crime-safety-and-emergencies/community-safety/">https://www.merthyr.gov.uk/resident/crime-safety-and-emergencies/community-safety/</a> Mae’r ddolen yn segur ac nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael yn hawdd amdani ar-lein. Mae manylion cyswllt ar ochr dde’r dudalen.</p>	<p>Gwybodaeth gyfyngedig heb unrhyw ddolennau i’r gwasanaethau sydd ar gael. Nid oes cyfeiriad at ddiogelwch trydanol.</p>

Awdurdod Lleol	Gwybodaeth Diogelwch Tân/ Trydanol/yn y Cartref	Dolen i Electrical Safety First	Dolen i Wasanaeth Tân ac Achub/ Gwybodaeth am Wiriad Diogelwch Tân yn y Cartref
<p><b>15. Rhondda Cynon Taf</b> <a href="http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/Resident.aspx">http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/Resident.aspx</a></p>	<p><b>Na</b></p>	<p><b>Na</b></p>	<p>Mae tudalen ar gysylltiadau gwasanaethau brys, ond ni restrir y Gwasanaeth Tân; mae dolen i wefan Western Power ar gyfer pryderon cysylltiedig â thrydan.</p> <p><a href="http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/EmergenciesSafetyandCrime/EmergencyServicesContacts.aspx">http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/EmergenciesSafetyandCrime/EmergencyServicesContacts.aspx</a></p>
